
# Y DINESYDD

Gorffennaf Awst 2022 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 470 £1.20


## RHAI O BOBL BRO'R DINESYDD



Tud. 28





Tud. 9




Tud. 13




Tud. 11



Tud. 18

# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Wyn Mears**

***Golygydd Medi***
***Manon Phillips***

Cyfraniadau erbyn 27 Awst at:
manonph@googlemail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau at:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol
gan
Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


## Golygyddol

Rhaid cyfadde' ei fod yn anrhydedd i gael y cyfle i leisio 'marn fel golygydd y mis - dim ond fy mod yn cymryd y cyfle o ddifri wrth gwrs. Digon hawdd fyddai datgan fy rhagfarnau ynglŷn â chymaint o faterion a digwyddiadau cyfoes. Mae 'mhlant yn fy nghyhuddo o dyfu'n agosach i Victor Meldrew bob dydd, yn enwedig wrth yrru o gwmpas ein dinas a barnu'r sgwteri trydan hynny sy'n croesi ar draws ffyrdd o bob cyfeiriad, y gyrwyr sydd wedi anghofio sut i ddynodi eu bod am droi, a'r seiclwyr sydd yn defnyddio'r palmentydd fel eu prif dramwyfa. "Sain credu hwnna" yw fy nghri dyddiol. Ond ar y cyfan rwy'n hoffi meddwl fy mod yn ystyriol, yn fodlon gwrando ar farn pobl eraill ac yn barod i ddeall pethau newydd yn ein byd ni.

Mae'r *Dinesydd* y mis hwn yn adlewyrchu cymaint sydd ar newid yn ddyddiol ac yn rhoi cyfle i'n darllenwyr i ddeall rhagor am weithgareddau Caerdydd a datblygiadau'r byd sydd ohoni. Nid cylchgrawn hen ffasiwn yw e', ond un sydd yn agored i erthyglau yn ymwneud â materion digidol, datblygiadau busnesau bychain, ymwybyddiaeth o fyd natur, prysurdeb ein pobl ifanc, chwaraeon, sut i drin ein harian ayb. Yn ogystal gallwn ddysgu cymaint am ein hanes a'n traddodiadau, ein crefydd, a datblygiad ein hiaith.

Cylchgrawn dynamig yw'r *Dinesydd,* un sy wedi datblygu dros y blynyddoedd i adlewyrchu newidiadau ein cymdeithas a'n dinas, ac ar drothwy ein pen-blwydd yn hanner can mlwydd oed edrychaf ymlaen at barhad yr esblygiad hwn gan obeithio denu darllenwyr a chyfranwyr newydd i'n mysg. Beth am rannu eich copïau â'ch teuluoedd a'ch ffrindiau sydd ddim yn danysgrifwyr ar hyn o bryd? Beth am ofyn a allwch adael copi yn ystafell aros eich deintydd eich meddyg neu eich siop trin gwallt? Ni allwn ei gymryd yn ganiataol fod nifer y darllenwyr yn mynd i gynyddu heb ymdrech i hybu ein cylchgrawn Cymraeg i'r miloedd ar filoedd o siaradwyr sydd wedi ymgartrefu yma a'r rheiny sy'n danfon eu plant i'r nifer cynyddol o ysgolion Cymraeg.

Byddwn yn chwilio am syniadau adeiladol dros y flwyddyn nesa - edrychwn ymlaen at eu derbyn! Yn y cyfamser mwynhewch y gyfrol hon!

*Wyn Mears*

## Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CAFFI BLOC**, Parc Fictoria
**CAFFI FFLOC**, Heol Ddwyreiniol y Bontfaen
**CANT A MIL**, 100 Whitchurch Rd.
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, Arcêd y Castell
**Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY,** Rhiwbeina

# Colofn G.R.



*"Mae'r plismon iaith wrthi eto."*

Mae mis Mehefin wedi bod yn gyforiog o ddigwyddiadau rhwng pawb a phopeth a diau fydd misoedd Gorffennaf ac Awst rywbeth tebyg fel mae bywyd yn dechrau normaleiddio ar ôl dros ddwy flynedd lom a digalon oherwydd y firws a drodd ein bywydau wyneb i waered.

Cafwyd chwip o Eisteddfod yr Urdd yn nhre Dinbych â safon y cystadlu cystal ag erioed. Roedd mynediad i'r Eisteddfod yn rhad ac am ddim eleni diolch i haelioni Llywodraeth Cymru, a daeth tua 120,000 o bobl i fwynhau holl fwrlwm yr eisteddfod hon. Rhaid canmol yr arlwy o'r Eisteddfod a gafwyd ar S4C a Radio Cymru, a rhaid llongyfarch cymaint o'r plant a phobl ifainc yng Nghaerdydd a'r Fro a enillodd wobrau yn Ninbych.

Un digwyddiad yn ystod y mis diwethaf a gafodd sylw mawr oedd y ddrama fawr yn San Steffan wrth i 148 o'r Blaid Geidwadol bleidleisio yn erbyn Boris Johnson, ond serch hynny mae o'n dal yn ei swydd - ar hyn o bryd beth bynnag!

Ym myd pêl droed llwyddodd ein tîm cenedlaethol i gyrraedd cystadleuaeth Cwpan Pêl droed y Byd yn Qatar ym mis Tachwedd am y tro cyntaf ers chwe deg pedair o flynyddoedd, diolch yn bennaf i goliau Gareth Bale y capten, yn y gemau yn erbyn Awstria a'r Wrcráin, a phwy all anghofio cyfraniad Dafydd Iwan i lwyddiant y tîm wrth iddo ganu 'Yma o hyd' cyn y gêm yn erbyn Yr Wrcráin a chanu ysbrydoledig ein Hanthem Genedlaethol gan y Wal Goch cyn pob gêm ac oedd yr angerdd yn y canu yn anfon ysgryd i lawr fy asgwrn cefn.

Er i dîm pêl droed Wrecsam foddi ar ymyl y lan yn eu hymdrech i godi i gynghrair uwch a'r dre yn colli cael ei dewis yn ddinas diwylliant ar gyfer 2025, cafodd y dre dipyn o hwb wrth ennill statws dinas yn lle tre ac felly yn ymuno â'r dinasoedd eraill yn y wlad sef Caerdydd, Abertawe, Casnewydd, Bangor, Tŷ Ddewi a Llanelwy.

Llongyfarchiadau hefyd i Amgueddfa Werin Sain Ffagan ar gael ei henwi yn Amgueddfa Orau ym Mhrydain yn ôl y cylchgrawn *Which*! Fe'i sefydlwyd nôl yn 1948 ac mae miloedd lawer wedi mwynhau ymweld â'r amgueddfa ers hynny. Yr adeilad nesa i'w ailadeiladu ar y safle fydd hen dafarn y Vulcan arferai sefyll ynghanol Caerdydd a'r gobaith ydy ei hail agor i'r cyhoedd tua diwedd 2023.

Yn ystod mis Mehefin collwyd o'n plith yr ysgolhaig a'r Athro Gwynedd Pierce oedd yn Llywydd Anrhydeddus Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru ac a fu farw ychydig cyn dathlu ei ben-blwydd yn 101. Yna yn 73 oed bu farw'r chwaraewr rygbi enwog a dawnus Phil Bennett o Felinfoel ychydig fisoedd wedi dadorchuddio cerflun ohono yn ei bentre' genedigol. Wedyn yn 70 oed bu farw Cen Llwyd, Talgarreg yng Ngheredigion a fu'n ymgyrchu dros yr iaith, dros heddwch ac yn erbyn arfau niwclear. Coffa da amdanyn nhw i gyd.

Eleni mae Coleg Prifysgol y Drindod Dewi Sant yn Llanbedr Pont Steffan yn dathlu dau ganmlwyddiant Addysg Uwch yng Nghymru wrth gofio am osod carreg Sylfaen y Coleg ar y 12fed o Awst 1822, ymhell felly cyn sefydlu Prifysgol Aberystwyth yn 1872. Gweledigaeth yr Esgob Thomas Burgess oedd sefydlu Coleg gyda'r bwriad o gyfrannu addysg yn bennaf i fyfyrwyr am yr offeiriadaeth.

Yn y Senedd ym Mae Caerdydd cynhaliwyd dadl bwysig i ddiwygio'r sefydliad wrth i'r Blaid Lafur a Phlaid Cymru gyflwyno eu cynllun i gynyddu nifer yr aelodau yn y Senedd o 60 i 96 ac i newid y dull o ethol yr aelodau, a hynny i ddigwydd yn yr Etholiad nesa yn 2026. Cafwyd gwrthwynebiad i'r cynllun gan y gwrthblaid ond pasiwyd y cynnig ar ddiwedd y ddadl ac felly ymddengys bydd newid mawr yn y Bae yn 2026.

Mae grŵp o ymgyrchwyr benywaidd yng Nghymru yn trefnu codi cerfluniau i gydnabod cyfraniad merched i fywyd y genedl gyda'r nod o godi pum cerflun o fewn pum mlynedd ac eisoes codwyd tri, sef yng Nghaerdydd i gydnabod gwaith clodwiw Betty Campbell, prifathrawes ddu gyntaf y wlad, ac yr ail yn Aberpennar i goffáu Elaine Morgan oedd yn feddylwraig graff ac addysgwraig, a'r trydydd i goffáu Cranogwen sef Sarah Jane Rees yn Llangrannog, oedd yn fardd, yn ymgyrchwraig, pregethwraig, newyddiadurwraig ac yn hyfforddi morwyr.

Y mis hwn cynhelir Chwaraeon y Gymanwlad yn ninas Birmingham sef ail ddinas fwyaf Prydain, ac eisoes dewiswyd ymhell dros gant o athletwyr gorau Cymru i gynrychioli ein gwlad yn y Chwaraeon. Dan ni'n genedl fach ond dan ni'n cynhyrchu athletwyr talentog mewn sawl maes ac felly rhaid dymuno'n dda iddyn nhw gan obeithio gweld ein baner yn codi'n aml yn ystod y cystadlu a sŵn 'Hen Wlad Fy Nhadau' yn diasbedain wrth ddathlu buddugoliaethau!

Yn olaf y tro hwn, mae'r plismon iaith hwn yn teimlo'n ddigon diflas wrth glywed cymaint o Gymraeg gwallus ar S4C a Radio Cymru wrth i bobl fethu adnabod cenedl geiriau wrth ddefnyddio rhifau gyda'r enwau a dyma nifer o enghreifftiau a glywais yn ddiweddar – tri phunt, dau blaid, tri wythnos, tri blynedd , tri gêm, tair diwrnod, tair mis, dau ffordd, dau ochr, blwyddyn neu ddau a chroeso i chi'ch tri ( tair merch)!

Taw biau hi rŵan ac felly gwyliau hapus a diogel i chi i gyd, gan obeithio y cawn haf go iawn i godi ein calonnau i gyd.

# Colofn Natur

## Caerdydd yr Eemian



**Gethin Jenkins-Jones**

Er ein bod ni gyd yn unigryw, un peth dwi'n siŵr sy'n apelio at bob un ohonom yw'r syniad o allu mynd yn ôl mewn amser. Ond pe bai modd i chi wneud 'mond un trip, i le ac ym mha gyfnod y byddwch chi'n ei ddewis? Efallai i weld aelod teulu coll, gêm chwaraeon ragorol neu i ddatgelu gwirionedd dirgelion mwya'r byd. Yn bersonol, gallaf feddwl am sawl opsiwn ond, er gwaethaf temtasiwn holl ddigwyddiadau cyffrous hanes y byd, nid oes amheuaeth i le byddaf i'n ei ddewis - Prydain 123,000 o flynyddoedd yn ôl. Cyfnod byr o gynhesrwydd oedd hwn yn ystod Oes y Iâ, a elwir yr Eemian. Pam ei ddewis dros gyfnodau eraill? Wel, dyma oedd yr adeg olaf pan oedd y wlad yn wirioneddol wyllt tra roedd yr hinsawdd yn debyg i heddiw. Awn ni yna nawr ac, fel fi, efallai welwch chi apêl y cyfnod anhygoel hwn hefyd.



***Arth: Laura Giles***

Cerddwn allan o'r peiriant amser i fore gwanwyn cynnes a heulog. Rydym yn sefyll ar orlifdir mawr llaith, sydd heddiw yn un o hoff leoliadau hamddenol dinasyddion Caerdydd - Parc Biwt. Ond nid oes plant bychain yn rhedeg o flaen beicwyr neu grwpiau o fyfyrwyr yn torheulo yma heddiw. O'n cwmpas mae 'na gymysgedd o laswellt, blodau amrywiol ag ambell glwstwr o goed helyg a gwerni. A thua 100 metr ohonom mae'r afon Taf yn llifo. Mae'n anodd credu mond 15,000 o flynyddoedd yng nghynt roedd y lle hwn ag amodau tebyg i'r Arctig. Ac, yn wahanol i'n trip diwethaf, mae 'na symffoni hyfryd o adar ac anifeiliaid yma i'n croesawu. Fry uwch ein pennau mae cân swynol ehedydd ac, wrth edrych lan i ddod o hyd iddo, mae ein sylw yn troi at gri grŵp o wenoliaid duon yn gwibio heibio fel awyrennau jet. Yn y pellter mae nodau cyfarwydd y gog i'w clywed ac, o goeden gyfagos, daw cân grwndi'r durtur. Mae 'na hefyd fwmian rheolaidd gwenyn o'n cwmpas, ac yn symud rhwng y meillion mae cacynen felen yn peillio'n brysur. Oherwydd newidiadau i'n tir fferm 'mond yng ngogledd Yr Alban welwn ni'r gacynen hon erbyn hyn. Gwelwn sawl rhywogaeth o bili palod hefyd, yn cynnwys dwsinau o frithion y gors sy'n ymdebygu i fflamau oren yn yr heulwen. Yn anffodus, ma 'na lawer o wybed yma hefyd, felly gwell i ni symud cyn iddyn nhw ein brathu!



***Afanc: Alicia Hayden***

Mae'n llaith dan draed, ond mae modd cerdded i'r Taf. Wrth gyrraedd glan yr afon gwelwn belican yn hedfan yn araf ac yn rheolaidd tua'r bae. Mor rhyfedd yw gweld yr aderyn hwn, ond mewn gwirionedd roedd yr adar yma i'w gweld ym Mhrydain mor ddiweddar ag oes y Rhufeiniaid rhyw 2000 o flynyddoedd yn ôl. Mae 'na sicr digon o fwyd yn yr afon iddynt. Wrth edrych trwy'r dŵr gallwn weld sawl haid o bysgod, yn cynnwys samwn a rhuddbysgod, ac mae ambell lysywen hir yn sleifio rhwng y creigiau hefyd. Tua chan llath lan yr afon mae arth brown yn eu llygadu gan lyfu ei weflau, ac mae pysgotwr arall, glas y dorlan gerllaw hefyd. Gwelwn walch y pysgod yn sefyll yn stond yn uchel yn un o'r coed ac yn ymestyn ar draws yr afon mae argae afanc, lle mae mam a'i hepil i'w gweld yn bwydo. Mor braf yw gweld cymaint o fioamrywiaeth yma - gallwn eistedd yma yn ei mwynhau drwy'r dydd. Ond beth am i ni gerdded tuag at leoliad presennol Stryd y Frenhines, sydd heddiw yn goedwig agored o dderw, oestrwydden a choed cyll.

Wrth gerdded nôl ar hyd y gorlifdir rydym yn dod bron wyneb i wyneb ag elc Gwyddelig yn bwydo ar helygen gyfagos ac mae'n carlamu i ffwrdd yn swnllyd wrth ein gweld. Mae'r bwystfil hwn yn wirioneddol fawr. Gall eu cyrn dyfu hyd at dros 4 metr o led ac, yn fwy rhyfedd fyth, maent yn tyfu rhai newydd bob blwyddyn! I gwrdd ag anghenion eu creu mae'n rhaid iddynt fwyta 60g o ffosfforws a 30g o galsiwm bob dydd - sy'n golygu treulio lot fawr o amser yn bwyta! Nid oedd yr anifeiliaid hyn erioed yn gyffredin a bu iddynt ddarfod

â bod 12,000 o flynyddoedd yn ôl, felly rydym yn lwcus iawn i weld un ohonynt heddiw.

Mae'r fioamrywiaeth anhygoel yn parhau wrth i ni gerdded i'r goedwig. I'w clywed o'r canghennau cyfagos mae nodau crynedig telor y coed ac, yn y pellter, drymio cnocell fraith leiaf. Mae dryw bach yn bloeddio'n swnllyd gerllaw ac, yn uchel uwch ein pennau, mae cân hyfryd gwybedog brith. Mae 'na hefyd famaliaid o'n cwmpas. Gwelwn ddwy wiwer goch yn sgrialu lan boncyff ac mae darn o bridd wedi'i droi yn arwydd bod baeddod gwyllt yma'n rhywle hefyd. Clywn beswch gwartheg a gwelwn haid o hanner dwsin aurochiai rhwng y coed. Dyma hynafiaid ein gwartheg heddiw, ond maent bron ddwywaith eu maint ac yn llawer mwy ffyrnig. Mae eu cyrn yn hir ac yn finiog ac, yn wahanol i'w disgynyddion heddiw, mae 'na wahaniaethau sylweddol rhwng y gwrywod a'r benywod. Mae'r gwrywod yn ddu ac yn llawer mwy o faint na'r benywod, sydd yn frown ac efo cyrn llai. Fe fyddai'n ddoeth i ni gerdded i ffwrdd ohonynt cyn iddynt ein gweld - rydym yn edrych yn rhy debyg i'r Neanderthaliaid sydd dal o gwmpas yn eu hela.



*Elc: Laura Giles*



*Aurochs: Alicia Hayden*

Cerddwn am dipyn gan ychwanegu rhagor o adar at restr y dydd: tingoch, gylfinbraff a thitw'r wern yn eu plith. Mae'r goedwig yn llawn bywyd. Rydym yn cyrraedd ardal agored ac, wrth sganio efo'n binociwlars, gwelwn rinoseros yn bwydo ar ddail isaf llwyn draenen wen. Rinoseros Merck yw hwn - hen rywogaeth sydd wedi hen ddiflannu bellach oedd i'w ganfod yn byw yr holl ffordd i ddwyrain Tsieina yn y cyfnod hwn. Roedd rhinoserosiaid o ryw fath yn bodoli yng Nghymru rhwng oddeutu 40 miliwn o flynyddoedd yn ôl tan rhyw 40,000 o flynyddoedd yn ôl ond, eto i gyd, dwi'n siŵr bod nifer ohonom yn meddwl amdanynt erbyn hyn fel anifeiliaid o Affrica neu dde Asia yn unig!

Rydym eisoes wedi gweld nifer o greaduriaid bendigedig, ond mae cymaint mwy o'n hamgylch i'w mwynhau, ond nid rhai mawr yw pob un ohonyn nhw o reidrwydd. Wrth droi nôl at y peiriant amser mae aderyn maint drudwy â phlu o liwiau brown cryptig yn dod i'r golwg. Gyddfgam yw hwn - aderyn tebyg i gnocell y coed sydd ond yn bwyta morgrug! Tan ryw ganrif yn ôl o'n hoes ni roedd yn aderyn hwn yn gyffredin ledled y wlad (fel mae'r hen enw Cymraeg - gwas y gog - yn awgrymu) ond mae'n rhaid mynd i'r cyfandir i'w weld nawr. Hyd heddiw, hwn yw fy hoff aderyn. Mae mor rhyfedd ac yn unigryw ymysg adar presennol Ewrop. Ryw ddydd, dwi'n gobeithio, byddant yn dychwelyd i Gymru ond, am y tro, gallwn fwynhau'r un sydd o'n blaenau ni nawr.



*Gyddfgam: Alicia Hayden*

O bob un o'r cyfnodau yr ydym wedi ymweld â nhw dros y flwyddyn ddiwethaf, i mi hwn yw'r cyfnod mwyaf poenus i'w adael. Dychwelodd y rhew am y tro olaf rhyw 118,000 o flynyddoedd yn ôl gan wthio llawer o famaliaid ac adar y wlad i dde Ewrop, a chamodd bod dynol modern i'r cyfandir am y tro cyntaf 43,000 o flynyddoedd yn ôl. Mae llawer o newidiadau wedi digwydd yng Nghaerdydd ers hynny, a byddaf yn crynhoi'r newidiadau mwyaf yn yr erthygl nesaf. Am y tro, mae'n amser gadael paradwys a gwneud a pharatoi am un trip arall i gwblhau ein taith - i'r cyfnod presennol!

# DATHLU'R 50

**Ym mis Ebrill 2023 fe fydd *Y Dinesydd* yn 50 mlwydd oed ac mae'r pwyllgor yn awyddus i ddathlu'r achlysur.**

**Byddwn yn sefyldu gweithgor fel y gallwn ddathlu'r digwyddiad yma. Os oes unrhyw un ohonoch chi'r darllenwyr am fod yn rhan o'r gweithgor cysylltwch ag eirianagwilym@gmail.com**

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Ar nos Lun, Mehefin yr 20 fed croesawyd pawb i'r cyfarfod gan ein llywydd Shirley Williams. Dechreuwyd y cyfarfod drwy gydymdeimlo â rhai aelodau sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar. Y peth cyntaf ar y rhaglen am y noson oedd ethol swyddogion, a balch oedd cael dweud bod pob un o'r swyddogion wedi eu hail ethol. Diolchwyd i rai o aelodau'r pwyllgor a oedd yn ymddeol o'r pwyllgor am eu gwaith a'u cyfraniad dros y blynyddoedd i'r Gymdeithas.

Ein siaradwr gwadd am noson olaf y tymor oedd un o blant Rhiwbeina sef Vaughan Roderick, Prif Olygydd Materion Cymreig BBC Cymru.

Aeth Vaughan â ni ar drywydd annisgwyl sef hanes bywyd plentyn o fferm Tŷ Canol, Mynydd Meio nepell o Gaerffili, sef Netw neu William Edwards. Er iddo golli ei dad a cholli tenantiaeth y fferm, ymhen amser tyfodd i fod yn adeiladydd enwog a oedd yn gyfrifol am bont hynod Pontypridd a chapel y Groeswen.

Yn ogystal â bod yn adeiladwr dylanwadol, roedd ganddo gydwybod gymdeithasol ac yn ôl pob tebyg roedd ei weithgaredd yn gosod sail i'r Wladwriaeth Les a gyflwynwyd gan Lloyd George yn ddiweddarach.

Cafwyd noson ardderchog yn llawn straeon difyr. Diolchwyd i'n siaradwr ar ein rhan gan un arall o blant Rhiwbeina sef ein Llywydd Anrhydeddus Gwilym Roberts.

Atgoffwyd pawb am ein cyfarfodydd nesaf sef, y trydydd Llun o'r mis, cyfle i gymdeithasu a sgwrsio Gorff 18 ac Awst 15. Cwrdd ym maes parcio "Y Deri" i gerdded am 10.00 a chwrdd yn Y Deri eto os am baned am 11.00.




## Y DIGWYDDIADUR

### Gorffennaf

**Iau, 14 Gorffennaf**
Menter Caerdydd. Taith gerdded rhwng Parc Hailey a Choed Radur, yn dechrau am 10.00am. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).
**Sadwrn, 16 Gorffennaf**
Datganiad Organ gan Emma Gibbins yn y Tabernacl ar yr Ais am 12.30pm.
**Llun, 18 Gorffennaf**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Cyfle i gyfarfod a chymdeithasu. Cwrdd ym maes parcio 'Y Deri', Rhiwbina am 10.00 o'r gloch er mwyn cerdded ac am 11.00 o'r gloch am baned. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653).
**Mawrth, 19 Gorffennaf**
Menter Caerdydd. Taith fws i Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd. Manylion pellach: leanne@mentercaerdydd.cymru
**Mercher, 20 Gorffennaf–Sadwrn, 30 Gorffennaf**
'Anthem': comedi gerddorol Gymraeg newydd gan Llinos Mai yn Stiwdio Weston, Canolfan Mileniwm Cymru. Manylion pellach: https://www.wmc.org.uk/cy/digwyddiadur/2022/anthem

### Awst

**Mawrth, 2 Awst**
Menter Caerdydd. Taith fws i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron. Manylion pellach: leanne@mentercaerdydd.cymru
**Llun, 15 Awst**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Cyfle i gyfarfod a chymdeithasu. Cwrdd ym maes parcio 'Y Deri', Rhiwbina am 10.00 o'r gloch er mwyn cerdded ac am 11.00 o'r gloch am baned. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653).

### Medi

**Mercher, 7 Medi**
Merched y Wawr, Bro Radur. Bydd cyfarfod cyntaf y tymor newydd am 7.30pm mewn lleoliad newydd, sef Ysgoldy Eglwys Crist, Heol Isaf, Radur CF15 8AL. Dr Mary Nicholas, y Llywydd newydd, fydd yn rhoi sgwrs ar hanes Cranogwen. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Gwen Emyr (gwen.emyr@gmail.com; 029-2084-8545).
**Sadwrn, 17 Medi**
Menter Caerdydd. Taith fws i Ŵyl Fwyd y Fenni. Manylion pellach: leanne@mentercaerdydd.cymru

**Anfonwch fanylion ar gyfer y Digwyddiadur at yr Athro E. Wyn James. 16 Kelston Rd, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 2AJ (ffôn: 029-2062-8754; ebost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).**

# Gwylio'r Geiniog



## Huw Aled Accountants

1. I'r rhai sydd wedi creu ymddiriedolaethau ('*trusts*') fel rhan o'u cynllun treth etifeddiaeth, daw rheolau newydd i rym ar 1 Medi 2022 ar gyfer cofrestru ymddiriedolaethau. Yn y gorffennol, dim ond ymddiriedolaethau â bil treth i'w dalu oedd angen cofrestru gyda'r Swyddfa Dreth. Erbyn 1 Medi 2022, fan bellaf, bydd hi'n ofynnol i bob ymddiriedolaeth drethadwy ac anhrethadwy (yn amodol ar restr o eithriadau) gofrestru gyda'r Swyddfa Dreth.

   Un enghraifft a allai ddal pobl allan yw ymddiriedolaeth sydd wedi'i chreu mewn ewyllys. O dan y rheolau newydd, nid oes angen i ymddiriedolaethau ewyllys gael eu cofrestru, cyn belled â bod yr asedau'n cael eu dosbarthu o fewn 2 flynedd o'r brofedigaeth. Os nad yw'r dosbarthu wedi digwydd o fewn 2 flynedd, bydd rhaid cofrestru'r ymddiriedolaeth ewyllys gyda'r Swyddfa Dreth.

   Os ydych yn ymddiriedolwr neu'n ansicr o'r gofynion cofrestru, cysylltwch â ni.

2. Mae'r Canghellor, Rishi Sunak, wedi cyhoeddi nifer o becynnau cymorth yn ddiweddar i helpu pobl gyda'i biliau ynni. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys taliad o £400 i bob cartref sydd â chyflenwad trydan. Yn ogystal, bydd taliad ar wahân o £650 i'r rhai ar fudd-daliadau, £300 i bensiynwyr sy'n derbyn taliadau tanwydd gaeaf a £150 i'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau anabledd.

3. Os nad ydych wedi gwneud eisoes, sicrhewch eich bod wedi hawlio'r lwfans gweithio o adref ar gyfer 2021-2022. Oherwydd y pandemig, os bu'n rhaid i unigolyn weithio o adref am o leiaf un diwrnod yn ystod 2021-2022, mae modd iddynt hawlio'r lwfans blynyddol llawn o £312.

   I'r rhai sy'n cwblhau hunanasesiad, gellir hawlio'r lwfans drwy'r ffurflen dreth; fel arall bydd angen cwblhau ffurflen P87.

***Cwestiynau Huw ac Aled:***
*Mae gennyf Atwrneiaeth ('Power of Attorney') a baratowyd ychydig o flynyddoedd yn ôl. Mae un o fy atwrneiod yn eithaf bregus ac ni all weithredu fel Atwrnai yn y dyfodol. Oes modd i mi ddileu'r unigolyn yma o'r Atwrneiaeth ac oes modd i mi benodi unigolyn newydd yn ei le?*

Mae'n bosibl cael gwared ar Atwrnai trwy ysgrifennu at Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (*'Office of the Public Guardian'*). Dylid eu hysbysu hefyd os bydd Atwrnai yn newid cyfeiriad neu'n marw. Yn yr achosion hyn, byddwch yn cadw'r ddogfen Atwrneiaeth wreiddiol.

Os dymunwch benodi unigolyn newydd yn Atwrnai, bydd angen i chi gyflwyno cais o'r newydd.

*Am fwy o fanylion cysylltwch â ni trwy:*
*huwaledaccountants.com neu 029 20694524*

---

# Merched y Wawr Caerdydd

O'r diwedd, ddwy flynedd yn hwyr, cawsom y cyfle i ddathlu degfed pen-blwydd y gangen. Roedd awyrgylch hapus wrth i ni fwynhau'r gwmnïaeth gan ymlacio a sgwrsio dros bryd o fwyd ac adloniant gan Gôr Canna yng nghlwb golff Cyncoed. Atgoffodd Gwen Holt, cadeirydd cyntaf y gangen, ni am y cyffro cynnar wrth sefydlu cangen newydd a'r balchder ei bod yn dal i ffynnu - yn gryf o ran nifer yr aelodaeth ond yn bwysicach fyth yn parhau yn gryf o ran presenoldeb yn y cyfarfodydd a'r naws gefnogol. Talwyd teyrnged i anogaeth a chefnogaeth Eirlys Davies wrth sefydlu'r gangen yn y lle cyntaf gan anfon ein cofion ati hi. Wrth lywio'r noson soniodd Rosina Davies, y cadeirydd cyfredol, am rai o'r uchafbwyntiau a'r llwyddiannau dros y blynyddoedd gan bwysleisio hefyd 'Ymlaen i'r Ddegawd nesaf!'



# Bwytai Merch y Ddinas



## "Da Iawn"

**Lowri Haf Cooke**

Rhyw fis yn ôl bellach pan oedd dathliadau'r Jiwbilî ar eu hanterth, diflasais wrth weld cynifer o faneri Jac yr Undeb. Codwyd rhai yn y llefydd mwyaf annisgwyl a dweud y gwir, gan ddatgelu tlodi ymenyddol, a naff-rwydd pur. Heb sôn am adlais o orffennol trefedigaethol, roedd mor od gweld cymaint o bobol yn dathlu teulu anfoesol o gyfoethog tra bod cynifer yn wynebu caledi ariannol. Onid yw pobol yn gwylio'r newyddion, neu - ar lefel mwy hunanol - yn dychryn wrth brynu petrol? 'Darllenwch yr ystafell', oedd fy mantra fis yn ôl. Dwi'n falch i ddweud, mewn môr o goch gwyn a glas, y cafwyd hafan o synnwyr cyffredin mewn stafell fwyta yn y Rhath.




Wel, tu allan, a dweud y gwir! Oherwydd yn cyhwfan uwchlaw mynedfa Da Iawn oedd baner y ddraig goch. Galwais i mewn i ddiolch i'r rheolwr, ac i archebu bwrdd am swper. Ac wrth sgwrsio ces i hanes y bwyty newydd Cymreig a agorodd gwta ddeufis yn ôl. Lleolir Da Iawn yng nghanolfan y Globe ar Heol Wellfield ger Parc y Rhath. Y cogydd Cornel Chiriac a'i wraig Maria yw'r perchnogion, o Moldova a Rwmania yn wreiddiol - nhw hefyd yw rheolwyr bwyty Sushi Life drws nesa, sy'n orlawn o gwsmeriaid yn nosweithiol. Wedi goroesi'r pandemig, penderfynon nhw agor ail fwyty, y tro 'ma yn dathlu'r gorau o Gymru. Yno i'ch croesawu y mae Adam o wlad Pwyl - gynt o westy dinesig Park House. Ac yn y gegin mae cymeriad a hanner o gogydd, sy'n wreiddiol o Gaerdydd.



Ganed y cogydd Paul Ford yn ardal Trebiwt cyn gadael ysgol Esgob Llandaf am Goleg y Barri. Dysgodd sgiliau coginio yno cyn mynd i Baris yn ddyn ifanc, yna i Toulouse i barhau ei brentisiaeth ar ddechrau'r 80au. Daeth adre i Gaerdydd gan ymuno â chenhedlaeth newydd o gogyddion lleol yn ffatri Ffrengig Pierre Victoire ar Heol Fair. Ymysg ei gyfoedion oedd Padrig 'Paj' Jones sydd bellach yn rhedeg cegin Sopra 73, ac mae'r ddau yn ffrindiau da hyd heddiw. Lansiodd Paul nifer o fwytai yng Nghaerdydd dros y blynyddoedd; Fish at 85, The Pear Tree a'r Grape and Olive i enwi dim ond tri. Mae e'n giamstar ar goginio seigiau bwyd y môr, ond ei atgof coginio cynharaf yw pigo mintys o'r ardd ar gyfer cinio Sul y teulu yn Nhrebiwt. Dim rhyfedd y bu galw amdano ym mwytai'r Heathcock a Le Gallois dros y blynyddoedd, yn enwedig ar ddydd Sul!

Yn wir, diwrnod mwyaf poblogaidd Da Iawn gyda chwsmeriaid yw dydd Sul; mae 'platiad y cogydd' yn cynnwys tri chig a llysiau, gyda'r cig lleol yn deillio o siop gigydd Hook yn Nhremorfa - £25 y person. Ond bargen yr wythnos yw'r fwydlen ginio ar ddydd Sadwrn, llai na decpunt am ddau gwrs. Es i yno ganol wythnos, yn llawn chwilfrydedd am safon y golwyth. Is-deitl Da Iawn yw 'Steak House' gan felly gystadlu â Pasture ac Asador 44 yng nghanol y ddinas.

Ces i groeso twymgalon, a chip ar y fwydlen, cyn penderfynu ar olwyth llygad yr asen (*rib-eye*) am £19 fel prif gwrs. Ac fe'm darbwyllwyd gan Adam i ddewis cwrs cyntaf o gig oen - un o seigiau mwyaf poblogaidd y fwydlen. Blas perlysiau Morocaidd sy'n nodweddu'r saig yma, ar wely o salad hafaidd. Byrbryd bach ysgafn cyn mwynhau gwledd o gig eidion, amryw sawsiau a basged o sglodion. Roedd y cig i'r dim a'r swper yn ddi-fai, a rhannwyd potel ysgafn o Merlot am £16.50. Bendigedig. Roedd y pris i ddau gryn dipyn yn llai na thai stêc eraill canol y ddinas - dewis da felly os ydych chi'n cyfri'r ceiniogau.

Wedi dwy flynedd heriol, mae'n werth cefnogi'ch bwytai lleol; os chwiliwch chi o gwmpas, fe arsylwch fod 'na brisiau pur rhesymol. Ond da chi, cefnogwch fusnesau annibynnol; dyna'n aml ble mae'r cogyddion mwyaf profiadol. Tipyn o gambl, erbyn meddwl, oedd gosod yr enw 'Da Iawn' yn enw ar fwyty, yn enwedig mewn cyfnod sy'n parhau i fod yn ansicr. Ond daw'r fath hyder o flynyddoedd o brofiad, ac mae'r teitl yn un teg. Trois tuag adre yn llon, yn canu geiriau Iwcs a Doyle. 'Da Iawn, Da Iawn' yn wir!

Da Iawn, Uned 6, Canolfan y Globe, Heol Wellfield, Penylan CF24 3PE; 07719199310

*Bwytai Cymru* a *Canllaw Bach Caerdydd* gan Lowri Haf Cooke (Gwasg Gomer) £9.99

## Hunangofiant y cerddor carismatig Alun Guy *Tyfu'n gerddor*

Mae'n bleser o'r mwyaf gan Wasg y Bwthyn gyhoeddi *Tyfu'n Gerddor*, hunangofiant Alun Guy o Gaerdydd, arweinydd corau, cerddorfeydd a chymanfaoedd ar hyd a lled y byd.

Mae pawb drwy'r Gymru sy'n hoff o gerddoriaeth a chanu wedi clywed am Alun Guy. Rhoddodd oes o wasanaeth i'r byd cerddorol yng Nghymru fel athro ysbrydoledig, beirniad eisteddfodol ac arweinydd dros gyfnod o drigain mlynedd.

Meddai Alun Guy yn ei Ragarweiniad i'r gyfrol: "Gobeithio y cewch …fwynhad wrth gydgerdded gyda mi, gan nodi'r dylanwadau a'r digwyddiadau, rhai'n ddoniol ac eraill yn ddifrifol, fu'n llywio cwrs fy mywyd."

Yng nghefn y gyfrol ceir rhestri o'r cymanfaoedd a arweiniodd Alun Guy dros y blynyddoedd, a'r eisteddfodau lle bu'n beirniadu, a'r cyngherddau dan ei arweiniad dros gyfnod estynedig. Mae'r cyfan yn tystio i'w wasanaeth clodwiw i Gymru.




Efallai mai'r actor Ioan Gruffydd a roddodd un o'r disgrifiadau mwy bachog o'i gyn athro Alun Guy mewn erthygl yn y *Times Educational Supplement* yn 2007 - "classy guy". Â pharhau gyda'r ieithwedd Americanaidd, gallwn ninnau argymell yn gwbl hyderus am ei hunangofiant *Tyfu'n Gerddor* ; "Check it out!" Ni chewch eich siomi.

**Pris: £9.95**
marred@gwasgybwthyn.co.uk
meinir@gwasgybwthyn.co.uk

### Adolygiad: Hywel Jones

Ar noson braf o Fehefin daeth teulu a ffrindiau ynghyd yn yr Eglwys Norwyaidd, Bae Caerdydd, i ddathlu cyhoeddi hunangofiant un o'n dinasyddion amlycaf. Fy mraint fawr oedd derbyn y gwahoddiad i lywio'r noson a hynny ar ôl yr anrhydedd o gael fy enwi am y tro cyntaf erioed yn hunangofiant un o bersonoliaethau mwyaf poblogaidd y genedl. Diolch yn fawr Alun!

Bu Alun Guy a minnau'n cydweithio yn CBAC yn ystod degawd cyntaf y mileniwm newydd. Fi oedd y swyddog arholiadau â chyfrifoldeb am Gerddoriaeth ac Alun oedd prif arholwr y cymhwyster TGAU. Pan na fyddai angen i Alun ddod i mewn i'r swyddfa am gyfarfod fe fyddwn i'n manteisio ar y cyfle i ymweld â'i gartref yn Rhiwbeina. Yn amlach na pheidio yn ystod misoedd yr haf, y cyfnod arholiadau, byddai neges ar ddrws ffrynt y tŷ yn Heol Llanishen Fach yn cyhoeddi bod 'y gŵr da o Gaerdydd ... mas y bac yn ymlacio'! Beth bynnag wnaeth y gweddill ohonom dros y ddwy flynedd diwethaf nid ymlacio bu hanes Alun Guy wrth iddo fanteisio ar y cyfnod clo i gofnodi stori ei fywyd a hanes ei yrfa ddisglair.

Does dim amheuaeth nad yw'r gyfrol hon wedi ei hysgrifennu yn y cywair llon er bod 'na ambell gyfnod lleddf wrth reswm. Mae'r awdur yn adrodd ei stori ar dempo cyflym. Bu sawl *crescendo* ar hyd y daith ac mae llu o symudiadau ysgafn a chwareus yn britho'r hanes. Mae'r stori am Alun yn mynd i Lundain i brynu'r delyn Salvi i Ysgol Glantaf yn enghraifft ardderchog o ddawn dweud y cyfarwydd arbennig hwn.

Mae teitl y llyfr, *Tyfu'n Gerddor*, yn cyfleu'n gywir iawn mai proses naturiol iawn fu datblygiad gyrfa gerddorol Alun Guy. Mae'n dychwelyd yn gyson at y ddelwedd yma o dyfu fel rhyw *leitmotif* Wagneraidd trwy'r gyfrol. Plannwyd yr hadau yn ei ddinas enedigol ac mae ei ddyled i'w rieni yn fawr. Lledodd y profiadau cerddorol o'u gwreiddiau cadarn yng Nghaerdydd, yn genedlaethol yn gyntaf ac yna'n rhyngwladol.

Rwy'n mentro dweud bod y rhan fwyaf ohonom yn gyfarwydd ag Alun Guy yr arweinydd corawl, yr arweinydd cymanfaoedd, y beirniad eisteddfodol a'r athro ysgol. Ond er mwyn adnabod yr Alun Guy cyflawn darllenwch am y pianydd jazz oedd yn dipyn o seren yn rhai o glybiau Caerdydd ar ddiwedd y 50au a dechrau'r 60au. Cewch hanes Alun Guy y mabolgampwr ifanc, y pêl-droediwr a wrthododd y cyfle i chwarae ar Barc Ninian a'r bocsiwr dewr a fu bron â thorri calon ei fam!

Felly, boed yn y garafán yn Nhregaron neu ar y traeth yn Nhorremolinos yr haf yma mynnwch eich copi o *Tyfu'n Gerddor*. Perl o gyfrol gan un o drysorau'r genedl!

## Y Comisiwn Cyfansoddiadol

Roeddwn wrth fy modd yn croesawu Leanne Wood i Radur ar gyfer cyfarfod cyhoeddus yn ddiweddar i drafod gwaith y Comisiwn Cyfansoddiadol.

Mae'r Comisiwn, a sefydlwyd fel rhan o'r cytundeb rhwng Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru, yn ystyried yr holl opsiynau cyfansoddiadol i Gymru, gan gynnwys annibyniaeth.

Roedd yn wych ar ôl y blynyddoedd diwethaf i fod mewn ystafell gyda'n gilydd i drafod sut y gallem wella llywodraethiant Cymru. Mae gan Gymru bwerau dros iechyd, addysg a thai, ond San Steffan sy'n dal i reoli'r system cyfiawnder troseddol, plismona a'r system les. Mae hyn yn amharu'n ddifrifol ar allu Llywodraeth Cymru i ddatrys nifer o broblemau mawr ein gwlad.

Mae dal amser i ddweud eich dweud cyn diwedd y mis trwy ymweld â gwefan y Comisiwn.

*Rhys ab Owen AS*

# Ysgol Plasmawr

**Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022**
Bu nifer o ddisgyblion Plasmawr yn cystadlu'n frwd yn Eisteddfod yr Urdd yn Ninbych yn ystod hanner tymor y Sulgwyn. Braf iawn oedd bod nôl yn cystadlu, cymdeithasu a mwynhau ar faes yr Eisteddfod unwaith eto! Diolch yn fawr iawn am ymdrechion ac ymroddiad y disgyblion i gyd wrth baratoi ac ymarfer ar gyfer y cystadlaethau amrywiol. Roedd yn wythnos lwyddiannus iawn a nifer o'r cystadlaethau yn cyrraedd y 3 uchaf! Roedd llwyddiant hefyd yn y cystadlaethau gwaith cartref.

Llongyfarchiadau mawr iawn i bawb!
2il - Erin Jardine – Unawd Piano Bl.7-9
3ydd – Iestyn Jones – Llefaru Unigol Bl.10 a dan 19
3ydd – Morus Jones – Dawns Werin i Fechgyn Bl.10 a dan 25
3ydd – Dawns Hip-hop / Stryd / Disgo Bl.7-9
1af – Dawns aml-gyfrwng Bl.7 a dan 19 oed
2il – Côr Bechgyn TB Bl.10 ac Iau
2il – Côr SATB Bl.13 ac Iau
1af – Ela-Mai Williams - Cyfansoddi Cerddoriaeth Bl.7-9
2il - Efan Williams - Cyfansoddi Cerddoriaeth Bl.7-9
1af – Menna Roberts - Prosiect Gwyddoniaeth Bl7-9
3ydd – Morus Jones – Barddoniaeth dan 19 oed
3ydd – Morus Jones – Barddoniaeth dan 25 oed







**Yr Adran Gelf a Graffeg yn Eisteddfod yr Urdd**

Gwnaeth nifer o ddisgyblion gymryd rhan yng nghystadlaethau Celf yr Urdd eleni. Cafodd y canlynol eu gwobrwyo ar lefel sir gyda'i gwaith yn mynd ymlaen i'r genedlaethol - Gruff Williams bl12, Mali McAleavey bl8, Nia Ambrose a Mia Owen bl9 ac Isobel Snow o flwyddyn 7.

Daeth tair i'r brig yn genedlaethol. Llongyfarchiadau i Ellie Lloyd Jones bl9 a gafodd 1af am ddarn o ffotograffiaeth wedi ei addasu. Ar lefel sir gwnaeth gystadlu mewn celf 2D, ffotograffiaeth du a gwyn a'r gystadleuaeth tecstilau.

Gwnaeth Siriol ap Rhys bl10 dderbyn y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth cerameg. Yn gynharach yn y flwyddyn roedd yr adran wedi gweithio gyda'r British Arts Council ar brosiect o dan y thema hunaniaeth. Roedd Plasmawr yn cynrychioli Cymru ac yna roedd un ysgol o bob gwlad o Brydain ac ysgolion o'r Iseldiroedd yn gweithio gyda'r artist Grayson Perry. O fewn ysgol Plasmawr gwaith Siriol ap Rhys ddaeth i'r brig. Cafodd gyfle i fod mewn sgwrs zoom gyda'r artist a'i gwaith wedi ei arddangos ar wefan y British Arts council.

Rydym yn falch iawn hefyd o Nel Thomas blwyddyn 11 a lwyddodd i ennill Medal Celf, Dylunio a Thechnoleg yn Eisteddfod Dinbych (gweler llun ar y clawr). Fe ddaeth Nel yn fuddugol yn y gystadleuaeth llun 2D i flynyddoedd 10 i 19 mlwydd oed. Cafodd y darn yma wedyn ei ddewis fel y prif ddarn o gelf yn yr Eisteddfod. Gwnaeth bortread manwl o wyneb hen berson mewn pensil gan feistroli technegau creu marciau a gweadau. Roedd ei chynrychiolaeth o ansawdd y croen yn anhygoel ac roedd naws myfyriol i'r llun. Roedd oriau o waith wedi mynd fewn i'r darn yma. Rydym yn hapus iddi dderbyn y fath anrhydedd ar ôl yr holl ymdrech yn enwedig yn ystod ei blwyddyn arholiadau TGAU.



Siriol ap Rhys mewn Zoom yn trafod ei gwaith gyda Grayson Perry

## Difyrion Digidol

Ers blwyddyn bellach yn gweithio gyda mudiadau, elusennau a sefydliadau sy'n gweithio trwy'r Gymraeg, rwyf wedi dod i werthfawrogi'r gwaith diflino ac amhrisiadwy sy'n digwydd gan wirfoddolwyr o fewn ein cymunedau, boed yn gosod rhifyn o'r papur bro lleol at ei gilydd, i fynychu cyfarfodydd rhithiol yr amgueddfa leol neu'r gymdeithas hanes. Mae'r pandemig wedi dangos y golled a'r gagendor yn ein diwylliant ni, pan ddaeth popeth i stop. Llwyddwyd i gynnal rhywfaint o'r diwylliant ar-lein ond roedd hi'n chwith iawn heb y bwrlwm arferol o fewn ein bröydd. Yn ffodus iawn, mae gweithgareddau yn ein cymunedau yn ailgychwyn, mae eisteddfodau lleol yn ailgychwyn, mae'r Urdd wedi cael wythnos lwyddiannus iawn yn Sir Ddinbych ac fe fydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn cael ei chynnal yng Ngheredigion o'r diwedd ym mis Awst. Dyma'r calendr cymdeithasol yn raddol ddychwelyd wrth i ddiwylliant y Gymraeg ail gydio ac adfywio. Ond mae'r pandemig wedi dangos fod posib gwneud pethau ar-lein, a hynny'n aml yn ddidrafferth. Sonies mewn colofn flaenorol am bwysigrwydd parhad cyfarfodydd hybrid sef cyfuno'r elfen dechnolegol a chyfarfodydd wyneb yn wyneb. Mae mudiadau fel Merched y Wawr yn ymbilio ar bawb fel cymdeithasau a chymdeithas yn gyffredinol i barhau i gynnal cyfarfodydd hybrid oherwydd bod yr angen yn sicr dal yno. Yn ystod y pandemig, llwyddodd pobl gydag anabledd, neu bobl mewn oed i fynychu cyfarfodydd am y tro cyntaf erioed a chymryd rhan mewn cyfarfodydd o'u hystafell fyw. Mae'n holl bwysig nad ydym yn anghofio'r bobl hyn a'r ffordd i wneud hynny yw hyfforddi pencampwyr digidol o fewn ein cymunedau i gofleidio a goresgyn yr heriau hyn a hwyluso unrhyw weithgareddau digidol.

Un o nodau rhaglen Cymunedau Digidol Cymru yw gwella sgiliau digidol gwirfoddolwyr a chreu pencampwyr digidol, ac fe rydym yn parhau i weithio gyda sefydliadau i gyflawni'r amcan honno. Dyna pam y sefydlwyd rhwydwaith Ymateb i'r Heriau Digidol yn gynharach eleni er mwyn gweithio gyda mentrau cymdeithasol, mudiadau cenedlaethol fel Merched y Wawr a Chymdeithas Eisteddfodau Cymru i gynyddu neu wella sgiliau digidol eu haelodau a'u gwirfoddolwyr. Mae sgiliau digidol yn rhan bwysig iawn o'r jig-so, fel ydi cysylltedd yn eich ardal ac offer pwrpasol. Ar hyd a lled Cymru, mae'r darlun yn amrywio, o adnoddau gwych digidol i ardaloedd ble nad oes band llydan cyflym. Dyma'r rhwystrau heriol yr ydym yn ei wynebu, er mwyn galluogi gweithgareddau hybrid neu ddigidol ond mae'n hanfodol fod cymunedau yn dod at ei gilydd i weithredu ac i alw am newid. Er mwyn cefnogi cymunedau i gyflawni'r nod, yr ydym fel rhaglen yn cynnig hyfforddiant cynhwysfawr, offer fel tabledi ar fenthyg ac mae yna ffyrdd o gael data am ddim i bobl sydd ei angen hefyd.

Mae'r digidol yma i aros, a dwi'n mawr obeithio fod ein diwylliant yma i aros hefyd ond bod angen i ni fanteisio ar dechnoleg i hybu a hyrwyddo ein diwylliant hefyd, ond hefyd sicrhau nad ydym yn eithrio pobl fregus o weithgareddau cymunedol. Felly, beth amdani?

Cysylltwch gyda mi: deian.apRhisiart@wales.coop os hoffech gymorth, gyngor neu fenthyg tabledi neu'n dymuno mynychu hyfforddiant.

# Murmuron y Meic

## Atgofion am y BBC Llandaf



Helo

Yn gynta ymddiheuriade am y bwlch ym mish Mehefin!!! Nawr man a man i fi fod yn onest, wrth ddathlu pen blwydd arbennig barws fish!!! A'th Murmuron y Meic yn angof.

Felly, dyma ail gydio. Chi'n barod am stori fach arall?

Wel, unweth 'to, o'n i newydd gwpla'r shifft fore, ac wedi mynd i bentre' Llandaf, pan sylweddoles bo fi 'di gatel rwpeth yn y stiwdio, felly nôl a fi. Nawr, gan taw miwn a mas o'n i'n mynd i fod, barces i'r car yn gloi a'i gefen at y clawdd, a miwn a fi.

Wel, os do fe!!

Lan a fi i'r stiwdio, casglu'n eiddo, a dod mas, ond wrth fynd lawr i'r dderbynfa, gweld bod 'na ryw d'wllwch mawr fel bola buwch, a neb yn gallu dod miwn na mynd mas! Pam te? O'dd cwmwl du o wenyn yn yr awyr tu fas, Cwmwl, a dim ware, canodd ohonyn' nhw. Nawr o'dd da fi apwyntiad, ac wrth i'r cwmwl symud i'r dde, geso i riteg mas at y car a miwn a fi a dechre'r injin, ond HALELIWIA!! 'ma gwmwl mawr arall yn cwni o bart ôl y car!! Nawr, fel wetes i ar y dechre, o'n i wedi parco at y clawdd m'wn hast, ac yno o'dd nyth gwenyn, a mwg y'n egsôst inne wedi aflonyddu arnyn nhw!! Wel, bant a fi, mas o'r BBC a chwmwl o wenyn ar 'yn ôl. Geso i ddim anghofio'r bore na cretwch fi, roiodd e ystyr newydd i "Buzz Off"!!!

Dou ddiwyrnod wetyn, ar ôl shifft, ma fi'n galw m'wn garej gyfacos i 'ôl petrol, ac i chi sy'n napod Ca'rdydd, o'dd hi'n arfer bod ar bwys y goleuate cyn mynd miwn i bentre' Llandaf.

Wel! achos bo fi wedi mynd h'ibo'r lle, o'dd rhaid i fi "rifyrso" nôl at y pwmp, ond wrth ga'l cip drw'r glas, sylwes bod y pwmp yn shiglo!!! Meddwl wetyn bo fi 'di bwro'r blincin pwmp, Na, sosib!! a ddim i'r gradde na tapun!! Pan ethoi mas o'r car, o'dd dyn fanny'n itrech yn gas a nghyhuddo i o niweidio'r pwmp!!!

"Come into the office, I want to take your details" medde fe. O fanny mhla'n, ma llaw "panic" yn citsho yndo i - "Faint o'dd pwmp yn mynd i gosti. A cosb ar ei ben e?? Os o'dd y pwmp na'n shiglo o'dd e'n ddim i gym'aru a'n shiglo i cretwch fi!!!!!

Wel! o'dd y dyrnote nesa yn ddiflas a gweud y ll'ia', dim awch at fwyd a ffili cysgu.

Ar y trytydd diwyrnod, o'n i ar y ffordd i'r stiwdio, a o'n i'n ffili cretu'n lliced!! O'dd y pwmps i gyd wedi diflannu, a'r garej wedi cau, felly o'dd e ar ei dra'd ola pan alwes i na!! a dyna ddiwedd gwt, a'r ofon ola' i fi!!!!

Reit, w i'n cretu boch chi 'di c'l dicon o droion trwstan Murmuron y Meic erbyn hyn, feddyla i am ryw destun mwy sylweddol cyn bo hir

So Long am y tro.

# Cymdeithas Carnhuanawc

### Cydnabod gwaith arwrol Alan a Catherine Jobbins

Dros Ginio dydd Sul ar Fehefin 26ain cafwyd cyflwyniad i Alan a Catherine Jobbins gan Gymdeithas Carnhuanawc yn dilyn eu hymddeoliad o'r pwyllgor. Trwy eu gweledigaeth hwy y sefydlwyd Cymdeithas Carnhuanawc ddechrau'r 80'au a chyda'u hysbrydoliaeth hwy a chadeiryddiaeth fedrus Keith



Bush, mae'r Gymdeithas wedi trefnu nifer helaeth o ddigwyddiadau, yn cynnwys teithiau tramor a lleol; darlithoedd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn flynyddol a chynnal Boreau Sadwrn gyda siaradwyr mwyaf blaenllaw Cymru yn annerch. Diolch o galon iddynt am eu gwaith clodwiw dros gynifer o flynyddoedd.

Fel rhan o'r Cyflwyniad, cafwyd englynion a gyfansoddwyd gan y Prifardd Aled Gwyn.

Mawr eich gwaith i'r Gymdeithas, - a rhuddin
Eich ymroddiad eirias
A rhoi glew eich gorau glas,
Yn llon hardd, fu'n llawn urddas.

Eich nerth a ddaw o'ch gwerthoedd, – a hynod
Eich mynych ymgyrchoedd;
Rydych yn llawn gweithredoedd
A'ch deuawd fel unawd oedd.

Maddeuwn eich ymddeol – os gwelwn
Y sgiliau teuluol;
Inni'n her i'n galw'n ôl
O ffiniau ein gorffennol.

A.G.

# Ysgol Bro Morgannwg

Dyma ni ar ddiwedd blwyddyn academaidd arall yma yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, a blwyddyn lwyddiannus iawn. O'r diwedd, cafodd y disgyblion flwyddyn lawn o addysg a'r arholiadau wedi mynd yn eu blaen. Ond nid dim ond arholiadau fu'n llenwi bywydau'r disgyblion hyn. Ar ddiwedd y flwyddyn, carwn ddiolch i'n holl rieni a'r gymuned ehangach am bob cefnogaeth - ac wrth gwrs i'r Dinesydd!

## Eisteddfod yr Urdd

Cafodd yr ysgol gryn lwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd, Sir Ddinbych, 2022. Daeth y disgyblion adref gyda llond gwlad o darianau a medalau. Llongyfarchiadau mawr i bob un a gystadlodd, a llongyfarchiadau hefyd i'r athrawon fu wrthi mor ddygn yn eu hyfforddi. Enillodd y Côr SATB a'r Côr SA y wobr gyntaf – tipyn o gamp! Yn ogystal, enillodd yr ensemble lleisiol blwyddyn 7-9 a'r ensemble lleisiol blwyddyn 10-13 y fedal aur. Cafodd y ddeuawd blwyddyn 7-9 sef Efa Thomas ac Alaw Davies y wobr gyntaf, ynghyd â Josh Lewis gyda'r Unawd Taro. Daeth Eleanor Baker yn ail gyda'r Unawd Gitâr ac Eleri Segust yn drydydd gyda'r Unawd Chwythbrennau. Dathlodd Logan Burrows ei wobr efydd ar yr Unawd Bechgyn blwyddyn 10-13, a'r band 'Dagrau Tân' hefyd yn drydydd yn y gystadleuaeth i fandiau blwyddyn 7-13. Ond nid perfformwyr yn unig a fu'n llwyddiannus. Cafodd Iosi Russell yr ail wobr am goginio yn y CogUrdd. Daeth Owen Weeks yn gyntaf wrth ddylunio crys-t yn yr adran Gelf, Dylunio a Thechnoleg, a'r Prosiect Llenyddol yn ennill yr ail wobr yn yr adran Lenyddol. Yn ogystal, daeth Owain-Morgan Weighell yn gyntaf yn y gystadleuaeth Fathemategol. Llongyfarchiadau hefyd i holl ysgolion cynradd y clwstwr am eu llwyddiant. Blwyddyn lwyddiannus iawn i'r Fro!

## Félicitations!



Llongyfarchiadau mawr i Owain Beesley, blwyddyn 7 am ennill yng nghystadleuaeth gyfieithu Rhydychen, Gwobr Anthea Bell. Enillodd wrth gyfieithu o'r Ffrangeg i'r Gymraeg, gan ennill drwy Gymru gyfan! Très bien!

## Gwyliau yn y Gwersyll

Cafodd holl ddisgyblion blwyddyn 9 y cyfle i fynychu gwersyll yr Urdd, Glan-llyn yn ddiweddar. Aeth 168 o ddisgyblion y flwyddyn i fyny i'r Bala i rwyfo, padl fyrddio, nofio a mwynhau drwy gyfrwng y Gymraeg yn y gwersyll. Da iawn blant am eu parch, cwrteisi a Chymreictod arbennig yn ystod yr wythnos!



# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*



## Yr Athro E. Wyn James

**Bwrlwm yn y Barri: D. Arthen Evans ym Mhwerdy'r Gymraeg** (Rhan 4)

Bu'r bardd mawr rhamantaidd, Robert Williams Parry, yn brifathro ysgol fach wledig y Sarnau yng Nghefnddwysarn ger y Bala am flwyddyn cyn mynd yn athro i Ysgol Sir y Barri ym mis Medi 1913, lle yr arhosodd tan fis Ebrill 1916, pan aeth yn athro i Ysgol Uwchradd Caerdydd.

Gadael Penllyn o'i anfodd a wnaeth, yn sgil pwysau o du ei dad a'i gyfaill, R. Silyn Roberts (a oedd wedi symud i fyw i'r Barri yn Ionawr 1913), a nodweddid ei gyfnod yn y Barri gan hiraeth am Gefnddwysarn, fel y gwelwn yn ei gerdd 'Blwyddyn', sy'n cwyno fod ei dad a Silyn wedi roi iddo 'ddilaswellt lawr y dref / Am uchel nef y wlad'.

Wedi dweud hynny, mwynhaodd Williams Parry y gwmnïaeth ddiwylliedig a brofodd yn y Barri yn ystod ei gyfnod yno. Roedd nifer o'r cwmni, fel ef ei hun, o ardal chwareli Arfon, gan gynnwys Silyn Roberts, y Parch. Llew G. Williams (cyfyrder i Silyn a gyrhaeddodd y Barri hefyd yn 1913 i fod yn weinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yng nghapel Penuel, lle y bu R. Williams Parry yn aelod tra oedd yn y Barri), ac Annie Ffoulkes, a gynhwysodd nifer o gerddi o waith Williams Parry a Silyn (dan ei enw ei hun a than ei ffugenw 'Rhosyr') yn ei blodeugerdd ddylanwadol *Telyn y Dydd* (1918). Agorodd hi'r gyfrol â soned gan R. Williams Parry i'w thad, y swyddog llengar yn chwarel Dinorwig, Edward Ffoulkes (1850–1917), un o arloeswyr ffurf y soned yn y Gymraeg ac un a ymddiddorai'n fawr mewn barddoniaeth Saesneg; roedd yn awdurdod ar Wordsworth a bu'n gohebu â Tennyson.

Llenyddiaeth oedd un o hoffterau mawr Edgar Jones, prifathro Ysgol Sir y Barri. 'Holl neuaddau llenyddiaeth a grwydrodd', meddai Williams Parry ar ddechrau englyn iddo. Ymddiddorai Edgar Jones yn fawr hefyd mewn celf ac archaeoleg ynghyd â chwaraeon o bob math. Bu'n bencampwr athletaidd ac yn chwaraewr pêl-droed a rygbi medrus yn ei ieuenctid, ac o dan ei arweiniad ef daeth Ysgol Sir y Barri yn nodedig am ei llwyddiant mewn chwaraeon. Yn Chwefror 1914 aeth Williams Parry gyda'i brifathro i weld Cymru'n curo'r Alban mewn gêm rygbi yng Nghaerdydd, ac meddai'r bardd am y profiad hwnnw: 'Cenedlaetholwr Cymreig fyth oddi ar hynny.'

Fel y nodwyd y tro diwethaf, bu Edgar William Jones (1868–1953) yn brifathro yn y Barri rhwng 1899 a'i ymddeoliad yn 1933. (Dyletswydd drist a syrthiodd i'w ran yn fuan wedi iddo symud i'r Barri, gyda llaw, oedd cynrychioli Urdd Graddedigion Prifysgol Cymru yn angladd ei gyfaill, yr Aelod Seneddol Tom Ellis, un o brif arweinwyr mudiad 'Cymru Fydd', yn Ebrill 1899.) Bu'n hynod lwyddiannus fel prifathro. Meddai un o'i gyn-ddisgyblion, Hrothgar Habakkuk (1915–2002), Is-ganghellor Prifysgol Rhydychen: 'Yr oedd yn brifathro egnïol, llawn dychymyg, a chanddo allu anghyffredin i ennyn teyrngarwch ac ymroddiad mewn disgyblion ac athrawon.' Ac roedd y disgyblion hynny'n cynnwys llawer un a ddaeth yn amlwg yn eu meysydd gwahanol, megis yr ysgolhaig Cymraeg Glyn Ashton, yr archaeolegydd Glyn Daniel, y peiriannydd Elfyn Richards, y chwaraewr rygbi Ronnie Boon, y cartwnydd Leslie Illingworth, a'r gwleidyddion Dorothy Rees, Gwynfor Evans a Barnett Janner.

Ysgol gymysg oedd Ysgol Sir y Barri tan 1913, pan rannwyd hi'n ysgolion i fechgyn a merched, a phrifathro'r ysgol i fechgyn fu Edgar Jones o hynny ymlaen hyd ei ymddeoliad yn 1933. Wedi iddo ymddeol, cafodd ail yrfa gyda'r BBC. Roedd ganddo ofal arbennig dros ddarllediadau crefyddol, ac ef a fu'n gyfrifol am y fersiwn Cymraeg o lyfr gweddi gwasanaethau'r BBC, *Bob Bore o Newydd* (1938).

Fel Edgar Jones, gyrfa ym myd addysg a gafodd ei ferch, Gwyneth Valerie Vaughan Jones (1895–1996). Bu'n athrawes Ffrangeg yn Abertawe a Chaerdydd cyn ei phenodi'n brifathrawes yr ysgol sirol i ferched yn y Barri yn 1939, swydd a ddaliodd am ugain mlynedd. Fel ei rhieni, roedd yn gefnogydd brwd i Gymrodorion y Barri.

'Gwraig o gryn allu' yw disgrifiad Hrothgar Habakkuk o Annie Gwen Jones (1868–1965), priod Edgar. Un o Fochriw ydoedd, ond o deulu a hanai o siroedd Caerfyrddin a Brycheiniog. Groser oedd ei thad, Thomas Jones, a allai gyfrif ymhlith ei hynafiaid yr athro a'r gweinidog Ymneilltuol arloesol, Rhys Prydderch (m. 1699) o Ystradwallter, ger Llanymddyfri, awdur y casgliad helaeth o ymadroddion diarhebol a duwiol, *Gemau Doethineb*.

Aeth Gwen yn fyfyrwraig i'r coleg prifysgol newydd yng Nghaerdydd yn 1883, y flwyddyn yr agorodd y coleg hwnnw ei ddrysau am y tro cyntaf, a bu hefyd yn astudio yn y coleg prifysgol yn Aberystwyth. Aeth i Wcráin yn 1889 yn diwtor i wyresau John Hughes (1814–89), y peiriannydd o Ferthyr Tudful a fu'n gyfrifol am y datblygiadau diwydiannol enfawr yng nghyffiniau Donetsk (fel yr eglurodd Gwen yn ei chofnod ar John Hughes yn *Y Bywgraffiadur Cymreig*). Arhosodd hi yn Donetsk (neu Yuzovka/ Hughesovka, fel y'i gelwid bryd hynny) tan 1892, pan fu raid iddi ffoi ar frys oherwydd i'r geri marwol (*cholera*) dorri allan yno. Gellir darllen ei hargraffiadau o'i chyfnod yn Wcráin ar y we: https://www.garethjones.org/margaret_siriol_colley/my_grandmother.htm.

Cyfarfu Gwen ag Edgar Jones pan oedd y ddau yn fyfyrwyr yn Aberystwyth, ac yn Rhagfyr 1894 fe'u priodwyd yng Nghroesoswallt, lle roedd Gwen yn athrawes ar y pryd. Roedd Edgar, a oedd yn frodor o Lanrhaeadr-ym-Mochnant ac wedi bod ei hun yn athro yng Nghroesoswallt, erbyn hynny'n brifathro yn Llandeilo, ac yno y dechreuasant eu bywyd priodasol, cyn symud yn 1899 i'r Barri. Fel ei gŵr, daeth Gwen


yn ffigur cyhoeddus amlwg yn y Barri a'r tu hwnt. Ymhlith pethau eraill, bu hi'n ysgrifennydd cangen y Barri o'r NUWSS, cymdeithas a ymgyrchai i fenywod gael y bleidlais.

Fel y crybwyllwyd y tro diwethaf, mab Gwen ac Edgar Jones oedd y newyddiadurwr Gareth Richard Vaughan Jones (1905–35). Disgleiriodd fel ieithydd, gan astudio yng Ngholeg Prifysgol Cymru yn Aberystwyth ac ym Mhrifysgol Strasbwrg, cyn graddio o Brifysgol Caergrawnt mewn Ffrangeg, Almaeneg a Rwsieg. Cyn mynd yn newyddiadurwr bu am gyfnod yn gynorthwyydd i David Lloyd George, yn ei gynghori ar faterion tramor. Fe'i cyflwynwyd i Lloyd George, gyda llaw, gan un a fu'n byw yn y Barri yn ystod bachgendod Gareth ac yn gyfaill i'w deulu, sef y gwas sifil dylanwadol Dr Thomas Jones, a ddisgrifiwyd un tro fel 'un o'r chwe dyn pwysicaf yn Ewrop'!

Gareth Jones a ddatgelodd i'r byd y newyn erchyll yn Wcráin yn 1933, er bod llawer yn amharod i'w gredu ar y pryd, gyda rhai yn ei gyhuddo o ddweud celwydd oherwydd rhagfarn yn erbyn Comiwnyddiaeth. Er enghraifft, aeth yr heddychwr a'r sosialydd Ithel Davies mor bell â haeru yn *Y Cymro* yn 1933 fod Gareth Jones yn dweud 'anwiredd maleisus'.

Brodor o sir Drefaldwyn oedd Ithel Davies (1894–1989), a bu am flynyddoedd yn fargyfreithiwr yn Abertawe, ond daeth i chwarae rhan amlwg ym mywyd Cymraeg Caerdydd a'r cyffiniau wedi iddo symud i Benarth yn 1951 pan briododd Enid Jones, un o deulu'r Cilie a phrifathrawes gyntaf ysgol gynradd Gymraeg gyntaf Caerdydd, a agorwyd yn 1949. Rhwng 1943 ac 1949 roedd Enid Jones yn athrawes Gymraeg yn Ysgol Moorland Road, Caerdydd, lle y bu Shirley Bassey yn un o'i disgyblion.

Teithiodd Gareth Jones yn eang fel newyddiadurwr. Ymhlith y rhai y cyfarfu â hwy ar ei deithiau roedd gweddw Lenin, Adolf Hitler, y pensaer Americanaidd enwog o dras Cymreig, Frank Lloyd Wright, a William Randolph Hearst, y gwneuthurwr ffilmiau a'r cyhoeddwr papurau newydd pwerus o America a pherchennog Castell Sain Dunwyd ym Mro Morgannwg.




***Plac yn yr Hen Goleg yn Aberystwyth https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Gareth_Jones_3.jpg***

Llofruddiwyd Gareth Jones ym Mongolia Fewnol yn 1935, a hynny (meddai Lloyd George) am ei fod 'yn gwybod gormod'.

Yn 1914 lansiwyd cylchgrawn o'r enw *The Welsh Outlook* dan nawdd teulu Davies Llandinam. Fel yr awgryma ei is-deitl, 'A Monthly Journal of National Social Progress', cylchgrawn ydoedd a geisiai ymateb i'r newidiadau mawr cymdeithasol ac economaidd a oedd ar droed yn y cyfnod hwnnw, gan archwilio pob agwedd ar fywyd Cymru, yn wleidyddol, addysgol, crefyddol, diwydiannol a chelfyddydol. Chwaraeodd pobl o'r Barri ran allweddol yn hanes cynnar y cylchgrawn hwnnw, gan gynnwys Edgar Jones a fu'n aelod o'r bwrdd golygyddol am rai blynyddoedd.

Golygydd cyntaf y cylchgrawn oedd un y cyfeiriwyd ato eisoes, sef Dr Thomas Jones (1870–1955), neu 'T.J.' fel yr adwaenid ef yn gyffredinol, brodor o Rymni a fyddai'n dod maes o law yn was sifil pwysig eithriadol ac yn ffigur hynod ddylanwadol ym myd y celfyddydau ac ym myd addysg. Ef, er enghraifft, oedd prif sylfaenydd Coleg Harlech yn 1927 ac yn brif ysgogydd sefydlu rhagflaenydd Cyngor y Celfyddydau yn 1939.

Aeth Thomas Jones i fyw i'r Barri yn 1911, i 8 Park Road, ond cafodd ei benodi gan David Lloyd George yn is-ysgrifennydd yn swyddfa'r Cabinet yn Llundain yn niwedd 1916, a rhannu eu hamser rhwng y Barri a Llundain fu ei hanes ef a'i deulu nes iddynt ymsefydlu yn Llundain yn 1919. Merch Thomas Jones oedd yr Aelod Seneddol Eirene White (1909–99), a ddaeth yn Weinidog Gwladol yn y Swyddfa Gymreig ac yn Farwnes White o Rymni. Roedd ganddi atgofion melys o'i phlentyndod yn y Barri, ac yn y Barri y gwasgarwyd ei llwch. Daeth ei brawd, Tristan Lloyd Jones, a aned yn y Barri yn 1913, yn rheolwr ac yn gyfarwyddwr papur newydd *The Observer*.

Un arall o'r Barri a fu'n aelod o fwrdd golygyddol *The Welsh Outlook* ym mlynyddoedd cynnar y cylchgrawn oedd R. Silyn Roberts (1871–1930), ffigur amlwg iawn ym mywyd diwylliannol ac addysgol Cymru a'r cyfaill a ddenodd R. Williams Parry i'r Barri yn 1913. Bu Silyn yn byw yn y Barri am y rhan fwyaf o'r cyfnod rhwng 1913 ac 1922, gan gyfrannu'n arwyddocaol at y bwrlwm Cymraeg a Chymreig a nodweddai'r dref yn y cyfnod hwnnw. Ac at hynny y trown y tro nesaf.

# Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd 2023

Bydd Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd nôl yn 2023. Bydd yr eisteddfod yn cael ei chynnal ddydd Sadwrn 21 Ionawr 2023.

Byddwn yn cyhoeddi rhestr testunau gwaith cartref am 2pm ddydd Iau 4 Awst ym mhabell Cymdeithas Eisteddfodau Cymru, yn Eisteddfod Tregaron. Dewch draw i ddweud helo a chael golwg gyntaf ar ein beirniaid a'r testunau.

Bydd y wybodaeth hefyd ar gael ar ein gwefan yn fuan wedyn www.eisteddfodcaerdydd.cymru.

Os hoffech chi noddi cystadleuaeth neu wirfoddoli yn yr eisteddfod, anfonwch e-bost at cyswllt@eisteddfodcaerdydd.cymru

# Merched y Wawr
# Bro Radur

Ar brynhawn braf o Fehefin, daeth ein gwibdaith hir ddisgwyliedig i Sain Ffagan i fod, diolch i ddyfalbarhad Heulwen Jones a fu'n ysgrifennydd rhaglen y gangen hon drwy'r cyfnodau clo. Roedd cryn gynnwrf ymhlith y cwmni a ymgasglodd yng nghyntedd prif fynedfa Sain Ffagan wedi cyfnod mor hir o fethu cwrdd wyneb yn wyneb.



Croesawyd ni gan Mared McAleavey, Prif Guradur Ystafelloedd Hanesyddol Amgueddfa Sain Ffagan. Hefyd yn bresennol oedd Ruth Davies, un o gyn-lywyddion y gangen, a fu'n cyfrannu i waith y grŵp a luniodd un o'r crogluniau sydd i'w gweld ar furiau Llys Llywelyn.

Esboniodd Mared McAleavey fod Bryn Eryr a Llys Llywelyn yn wahanol i weddill tai ac adeiladau Sain Ffagan gan eu bod yn adeiladau a godwyd ar sail dogfennau gwreiddiol a thystiolaeth archeolegol o'r cyfnod. Gelwir hyn yn ail ddatblygiad yn hytrach na symud adeilad garreg wrth garreg, fel yn achos gweddill adeiladau hanesyddol yr amgueddfa hon.

Yn y 1990au darganfu'r archeolegydd Neil Johnson olion neuadd frenhinol yng Nghae Llys, Rhosyr, ger Niwbwrch, Môn. Adeiladwyd y neuadd bren yn y drydedd ganrif ar ddeg ar gyfer Llywelyn Fawr. Roedd tywod wedi gorchuddio'r safle ers canrifoedd, felly dyma wneud defnydd o lawysgrifau Cyfraith Hywel Dda, chwedlau'r Mabinogion a dogfennau Llys y Tywysogion i ail gynllunio a chreu darlun o neuadd nodweddiadol o'r cyfnod.

Cefyn Burgess a arweiniodd y prosiect tecstilau, a chafodd disgyblion ysgol gynradd Nant Caerau yn Nhrelái brofiad arbennig yn peintio hanes Culwch ac Olwen dan ei arweiniad. Comisiynwyd seiri coed i greu dodrefn addas a fyddai'n harddu'r tu mewn, megis cadeiriau, gorsedd i'r tywysog a byrddau hir o'r ddeutu.

Wedi'r cyflwyniad gan Mared, cafwyd taith ar droed neu mewn cerbyd bychan i'r lleoliad ei hun. Cytunai pawb, uwch paned o de yn y caffi cyn gadael, ein bod wedi cael cipolwg ar waith gwreiddiol a gwefreiddiol.

Y tymor nesaf byddwn yn parhau â'n harfer o gyfarfod ar nos Fercher cyntaf y mis, gan ddechrau ar Fedi'r 7fed am 7.30 yr hwyr. Ein lleoliad newydd fydd Ysgoldy Eglwys Crist, Radur. Dr Mary Nicholas, Danescourt, ein llywydd newydd, fydd yn rhoi sgwrs ar hanes Cranogwen. Bydd croeso i'n haelodau ac i aelodau newydd.

# Merched y Wawr
# Y Felin

Yn ystod ein cyfarfod Mehefin, torrodd Heulwen ein llywydd y newyddion da bod gennym achos i ddathlu gan i'n cangen ni ennill Cystadleuaeth Cynnydd Aelodaeth Rhanbarthau'r De (2021 – 2022).

Croesawyd Rhuanedd Richards, Cyfarwyddwr BBC Cymru, i'r cyfarfod olaf hwn o'r flwyddyn. Merch o Gwm Cynon a aeth i Ysgol Gyfun Rhydfelen ac a raddiodd gydag anrhydedd o Brifysgol Aberystwyth yw hi. Mae hi nawr yn byw gyda'i theulu ym Mhontypridd. Er bod ganddi gysylltiadau teuluol dros nifer o ardaloedd yng Nghymru, symudodd i Gwm Cynon yn ddwy oed ac mae 'marc y cwm fel nod ar ddafad arni' meddai.



*Llun: BBC Cymru*

Cawsom sgwrs hynod o ddiddorol a byrlymus ac agorwyd ein llygaid i ddeall rhywfaint yn fwy am ei swydd brysur a phwysig. Mae ei chefndir mewn newyddiaduriaeth, a chyn dod yn Gyfarwyddwr, cyflwynodd nifer o raglenni teledu a radio politicaidd eu naws yn ogystal ag adrodd yn benodol ar ddatblygiadau'r Senedd ym Mae Caerdydd.


Ei phrif gyfrifoldeb fel Cyfarwyddwr yw arwain timau gweithredol i ddatblygu strategaeth cynnwys a blaenoriaethau ar gyfer radio, teledu, fideo ac ar-lein mewn Cymraeg a Saesneg. Tipyn o sialens!


Mae'r cyfrifoldebau hyn yn estyn dros feysydd llydan: amrywiol raglenni teledu sef drama, chwaraeon, dogfen, ffeithiol, a hi sy'n gyfrifol am Gerddorfa'r BBC yn ogystal, gan ofalu bod y rhain yn adlewyrchu presennol, gorffennol a dyfodol Cymru. Mae'n her anferth ond yn fraint, meddai.

Weithiau byddai'n ffeindio ei hunan ynghanol straeon enfawr sy'n torri'n sydyn a rhaid meddwl ar ei thraed i gael cynlluniau brys i'w lle. Cadwyd amserlenni a rhaglenni Radio Cymru trwy gydol cyfnod Covid e.e. a rhoddodd glod enfawr i'r timau am fodloni i fynd yr ail filltir yn eu gwaith wrth barhau i ddarlledu i'r genedl.

Mae'r darlun i'r dyfodol yn newid yn gyflym. Rhaid bod ar flaen y gad a datblygu egni newydd. Mae'r nod o ran y Gymraeg mor bwysig ac erioed. Mawr ein diolch i Rhuanedd.

## Rhif: 225



**Ar draws**
1. Gosod babell yma (4,8)
7. Menter gweithiwr o Loegr yn yr hen ddinas (5)
8.'-----, eneidiau, pam y crwydrwch
Fel tarfedig braidd o dref?' (cyf JTJ)(3)
9. Miwsig y cysegr (9)
10. 'Y blin gaiff fythol esmwythâd
A'r holl rai clwyfus ----- rhad' (cyf DJ) (5)
11. Sarff yn swnio'n opsiwn i'r meddyg (5)
14. Can darn o bren ddena 'nôl bron i'r dref yma (6-3)
16. Cael brwydr o wasgu'r canlyniad (3)
17. Pwdin Americanaidd a chynnwys perffaith (5)
19. 'Daeth awr i fynd i'th weryd,
A daeth i ----- ----- -----' (RWP) (3,6,3)

**I lawr**
1. Ar amrantiad fel chwannen (4,8)
2. Llidiart i gychwyn garddwest amser te (3)
3. Gwatwariaith i'w weld mewn ceir o Niwbwrch (6)
4. Y felan sydd wedi drysu'r sefydlydd (9)
5. Aros dros dro mewn tŷ a lle ynddo (5)
6. 'Ar arferion Cymru gynt
Newid ----- ----- ----- ----- -----' (JCH) (4,1,3,1,3)
7. A gaf i achub rhan o'r rhai sâl (5)
9. 16, nifer blynyddoedd Dai druan cyn cael heddwch (9)
12. Y cwmni i greu enillion (5)
13. Yli dôn sy'n swnio'n debyg (2,4)
15. Man i sefyll fel A.S. efallai (5)
18. Perthynas yng nghalon enaid (3)

**Enillydd Croesair Rhif 223**
**Miss G. Jones, Pontypridd**

**Atebion Croesair Rhif 223**

**Ar Draws:** 1. Gwrando 7. Cymod 9. Gwella 10. Ebychiad 12. Gwyrdroëdig 14. Gyda'i flodau 18. Ac ysgall 19. Brawd 21. Lowri 22. Gwanwyn

**I Lawr:** 1. Gwawr 2. Canllaw 3. Odi 4. Cyrchle 5. Romania 8. Abersoch 11. Cryfhau 13. Pynciodd 15. Amseru 16. Amrant 17. Cwdyn 20 Sws

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 6 Medi 2022
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN
Gwobr: Tocyn llyfr £10

# Cymrodorion Caerdydd

Daeth rhaglen 2021-22 i ben ym mis Mai gyda chyflwyniad gan yr Athro Richard Wyn Jones. Teitl ei anerchiad oedd '*Pam fod Llafur yn ennill eto ac eto ac eto yng Nghymru? Deall canrif o lwyddiant etholiadol*'. Mae Cymru yn eithriadol ymhlith gwledydd democrataidd y byd, meddai Richard, am i fwyafrif yr etholwyr lynu at yr un blaid am gyfnodau di-dor maith. Felly, ers Etholiad Cyffredinol 1922 hyd heddiw, bu mwyafrif Aelodau Seneddol Cymru yn aelodau Llafur. Cyn hynny, ers Etholiad 1868, yr oedd mwyafrif ein Haelodau Seneddol yn aelodau Rhyddfrydol.

I geisio deall y ffenomen hon dangosodd Richard sawl graff oedd yn dadansoddi hunaniaeth yr etholwyr ar sail dosbarth, ethnigrwydd, crefydd ac iaith. Yr hyn a ddaeth yn amlwg oedd bod polisïau unigol y gwahanol bleidiau yn llai perthnasol yn achos arferion pleidleisio etholwyr Cymru na'u gallu i uniaethu gyda delfrydau sylfaenol y blaid a gefnogent. Yng Nghymru yr oedd pleidleisio yn y bôn yn fynegiant o ethnigrwydd. Dangosodd Richard ddrych diddorol i ni weld ein hunain ynddi.

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Pwyllgor y Cymrodorion ddechrau Mehefin. Penderfynwyd cynnal pob cyfarfod y tymor nesaf ar Zoom, ond bydd cyfarfod Arwisgo'r Llywydd newydd yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb yn ogystal ag ar Zoom. Y Llywydd newydd yw Rheinallt Thomas, ac etholwyd Ion Thomas yn Is-ysgrifennydd gyda golwg ar ddod yn Ysgrifennydd yn Hydref 2023.

Yn ychwanegol ar y rhaglen arferol, bydd y Cymrodorion yn cynnal Cinio Gŵyl Ddewi yn 2023 fel cyfle i aelodau gael cyfle i gymdeithasu.

Penderfynwyd gwneud cyfraniadau i Gronfa Salesbury (cymorth i fyfyrwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol), Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd a'r *Dinesydd*.

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

**Archesgob Newydd i Archesgobaeth Caerdydd**



Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig iawn yn yr Eglwys Gadeiriol ar 20 Mehefin pan sefydlwyd y Gwir Barchedig Mark O'Toole yn wythfed Archesgob Caerdydd. Mae e hefyd yn Esgob Mynyw ac felly bydd yn bennaeth yr Eglwys Gatholig dros Dde Cymru gyfan.

Darllenodd y Nuncio, y Gwir Barchedig Claudio Gugerotti, eiriau'r Pab Ffransis yn awdurdodi'r apwyntiad, gan gymeradwyo'r Archesgob newydd yn gynnes i bobl Cymru. Roedd gwahoddedigion yno o esgobaeth flaenorol yr Archesgob, sef Plymouth, ynghyd â gwesteion ac offeiriad o esgobaeth Caerdydd. Ac roedd aelodau o'i deulu, gan gynnwys ei fam, yno i ddathlu gydag e ac i gymryd rhan yn y gwasanaeth.

Cafodd cynrychiolwyr dinesig ac eciwmenaidd eu cyflwyno iddo cyn iddo gymryd ei le ar y gysegrfa i ddathlu'r Offeren. Diddorol a chyffrous i ni siaradwyr Cymraeg oedd ei glywed yn cychwyn yr Offeren gydag arwydd y groes yn Gymraeg, ac fe ddefnyddiodd y Gymraeg hefyd yn ystod ei bregeth. Mae e 'n hanu o deulu Gwyddelig, a braf oedd ei weld yn dangos ei fod yn cefnogi'n hiaith drwy ei defnyddio ar achlysur mor bwysig iddo fe ac i'r ffyddloniaid.

Neges o gariad a gofal oedd gan yr Archesgob newydd yn ei bregeth - ei obaith yw estyn allan i arddangos cariad Crist a llawenydd yr Efengyl i bobl yn ein cymunedau, a chydymdeimlo a gofalu am y sawl sydd mewn gofid neu anawsterau ar hyn o bryd. Cyfeiriodd at uchelgais Cymru o fod yn Genedl Noddfa, gan fynegi gobaith y gall pobl o ffydd gefnogi'r rhai sy'n wynebu heriau mawr yn fyd-eang ac yn nes gartre.

Gyda'i wên gynnes a'i bersonoliaeth gyfeillgar, treuliodd amser hir yng nghanol twr o bobl oedd yn awyddus i'w gyfarch ar Heol Siarl ar ôl y gwasanaeth, ac wedyn yn y derbyniad yn Y Gonglfaen.

Arwyddair Archesgob Mark O'Toole yw *In manus tuas, Domine* (Yn dy ddwylo Di, O Arglwydd) ac edrychwn ymlaen at gael ein harwain yn nerth Duw dan ei arweiniad yn y blynyddoedd i ddod.

3 Gorffennaf: Offeren ar Zoom, 11am
24 Gorffennaf: Offeren Eglwys Teilo Sant, 4 30pm
7 Awst: Offeren ar YouTube, 4.30pm

Am y ddolen cysylltwch â carys@caerdelyn.com

## TABERNACL, YR AIS

Llongyfarchiadau i Glenys Lindsay a ddathlodd ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn â Siân Rhiannon, Euros Rhys ac Elen yn dilyn marwolaeth ddisymwth Anwen, chwaer yng nghyfraith Siân.

Llongyfarchiadau i Anwen Williams sy'n parhau i serennu yn y maes pêl-droed ac ennill gwobr Chwaraewr y Flwyddyn yng Nghynghrair Merched Ysgol dan 15 Caerdydd a'r Fro.

Yn y Gymdeithas Nos Fawrth cafwyd noson o adloniant cerddorol difyr yng nghwmni Euros Rhys a Dafydd Huw.

Y nofel a ddewiswyd yn y Clwb Darllen oedd 'Yn fyw yn y Cof' gan y Parchg John Roberts. Dewis perthnasol i'r aelodau gan fod John yn pregethu yn y Tabernacl o bryd i'w gilydd.

Llongyfarchiadau i ddwy o ddiaconesau'r Tabernacl ar eu gorchestion ym myd y mabolgampau. Llwyddodd Gwenllian Edwards i gwblhau ei thriathlon cyntaf drwy nofio 500 metr, seiclo 21k ac yna rhedeg 5k. Cerddodd Llinos Metcalf 50 milltir dros gyfnod o 5 diwrnod drwy fforestydd trofannol a mynyddoedd Cuba. Fe ddringodd 1000 metr ddwywaith ar ddau ddiwrnod yn olynol; a hynny mewn tymheredd o dros 30°C. Gwnaed cyfraniadau i ddathlu eu llwyddiant i ddwy elusen - Sefydliad Prydeinig y Galon a Chanolfan Ganser Felindre.

Cynhaliwyd gwasanaethau bob bore a nos Sul yn ystod Mehefin. Diolch i'r canlynol am eu parodrwydd i gynnal yr oedfaon yn eu tro - Parchg Denzil John, Marc Jon, Euros Rhys, Parchg Lona Roberts, Parchg Siân Elin Thomas a Huw Roberts.

## BETHEL, RHIWBEINA

Diolchwn i bob un a fu'n arwain ein gwasanaethau yn ystod y mis. Cawsom gwmni'r Parchg Dafydd Andrew Jones, Dr Eirian Dafydd a'r Parchg Robert Owen Griffiths ac roedd y gwasanaeth cymun ar Sul olaf y mis yng ngofal ein gweinidog.

Croeso nôl i Myfanwy Clark ar ôl ei hymweliad â Sweden i gwrdd â'i hwyres newydd, Nova. Pob dymuniad da i'r teulu oll.

Roedd y Gymdeithas Gymraeg wedi cwrdd yn y capel ar Fehefin 20 a'r siaradwr gwadd oedd Vaughan Roderick. Hefyd mae Aelwyd Hamdden wedi bod yn cwrdd yn y capel bob pythefnos ar fore Mercher am 11.

Cynhelir Bore Coffi ar fore Llun Mehefin 27 am 10.30. Bydd pob elw yn mynd i Ganolfan y Fron, Llandochau.

Mae teithiau cerdded noddedig Evan - 'Hadau Gobaith' - yn dod i ben cyn hir. Bydd y daith olaf yn cychwyn o Salem ar Orffennaf 13 am 5.30 (ymgynnull am 5). Mae croeso i ni ymuno ar y daith.

Rydym yn danfon ein cofion cynhesaf at Hafwen Roberts sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

Edrychwn ymlaen at fedydd Megan Elin Sofia, merch Bethan a Mathew Preece, ar Orffennaf 17.

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

**Oedfaon / Ysgol Sul (tymor ysgol) (10:30 a.m.):**

**Mis Gorffennaf 2022:**

3 – Oedfa Gymun—Delwyn Sion
10 – Recordio Caniadaeth y Cysegr (2:00 p.m.)
17– Oedfa - Sian Meinir
24 – Oedfa - Marc John Williams
31 – Cyd-addoli Tabernacl Efail Isaf (10:45 a.m.)

**Mis Awst 2022**:
7 Awst - Oedfa - Parchedig Dafydd Owen
14 Awst - Cyd-addoli Tabernacl Efail Isaf (10:45 a.m.)
21 Awst – Oedfa - Ian Hughes
28 Awst - Cyd-addoli Tabernacl Efail Isaf (10:45 a.m.)

Ar daith ddiweddar i dalaith Colorado yn yr Unol Daleithiau, fe ges bleser a mwynhad o weld y golygfeydd godidog oedd yno, yn fynyddoedd uchel, yn anialdir helaeth, yn geunentydd cul a throellog, yn afonydd byrlymus, a blasu byd natur, yn goed tal a blodau lliwgar, yn ymlusgiaid, adar, trychfilod ac anifeiliaid yr ucheldir.

Ond 'roedd yno yn ogystal olion pobl - y cynhenid a'r ymfudwyr, y mwynau aur ac arian, a fu'n gynhaliaeth i ddiwydiant ffilmiau fy ieuenctid yn y Plaza ym Mhenygroes.

Ac wrth hamddena, chwilota, a darganfod peth o rin y gorffennol mewn rhyw gyfrol neu'i gilydd, a chael blas anghyffredin ar y cynnwys.

A'r tro yma cyfrol fechan o ddiarhebion, yn deillio o wirioneddau'r gwahanol dylwythau o frodorion cynhenid y wlad. A gwirioni!

"*Saf yn y golau pan fyddi am ddatgan dy farn*" [tylwyth y Crow]

"*Ystyrier bob amser bod y gwahoddedig yn flinedig, oer a llwglyd, a gweithreda'n briodol*." [Navaho]

"*Paid â barnu dy gymydog nes i ti gerdded cyfnod yn ei esgidiau*" [Chyenne]

"*Siarad â'th blant tra maent yn bwyta; bydd yr hyn sydd gennyt i'w ddweud yn aros am byth.*" [Nez Perce]

A'm hoff un,

"*Paid â cherdded ar fy ôl; efallai na fyddaf yn arwain.*

*Paid â cherdded o'm blaen; efallai na fyddaf yn dilyn;*

*Bydd wrth fy ochr fel y byddwn fel un.*" [Ute]

## BETHEL, PENARTH

Da deall bod Iris a Ceri yn gweld pethau'n gliriach yn dilyn triniaeth cataract.

Llongyfarchiadau i Llinos Haf ar ei llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd a'n dymuniadau gorau iddi ar ddechrau ei gyrfa fel cantores.

Bu'r Sul Mehefin 12fed yn nodedig oherwydd dyna'r dyddiad pan gysegrwyd ffenestr liw newydd ym Methel; gweler llun a nodyn llawnach.

Cyfarfu'r Cyngor ar y 13eg o Fehefin. Ymhlith y materion a drafodwyd rhoddwyd sylw i'n dulliau o weithredu er lles mudiadau teyrngarol megis Masnach Deg.

Bu achlysur hanesyddolym Mhenarth ddydd Mercher Mehefin 29ain yn Eglwys yr Holl Saint (Anglicanaidd), pan oedd ein gweinidog ni (Anghydffurfiwr) yn gweinyddu'r Cymun. Bu rhaid i'r ficer lleol wneud cais i Esgob Llandaf am ei chaniatâd. Cydlawenhawn gyda'r ddau yn eu gweledigaeth. Llongyfarchwn Kevin ar gael y cyfle; mae'n siŵr bod ei hynawsedd yn ffactor nid bychan yn y fenter.

Cawsom arweiniad goleuedig yn ein hoedfa ar Fai 29ain gan ein chwaer Mary Simmonds. Ei thema oedd 'Tangnefedd', gan dynnu ar ran o'r Bregeth ar y Mynydd (Mathew 5, 1 – 10) a chyflwyno emynau 844, 871 a 205. Clywsom am gefndir ieithyddol y gair Tangnefedd oedd yn nodi gwahaniaeth pwyslais y gair Heddwch. Cyflwynwyd enghreifftiau o unigolion yr oes bresennol a'u hymroddiad i dangnefedd a heddwch.

Diolchwn am arlwy amrywiol gan ein gweinidog: Mehefin 5 – Actau 2, Ysbryd Duw yn rhoi hyder; Mehefin 12 – Actau 8 – Duw yn peri syrpreis; Mehefin 19 – Effesiaid 6 a Diarhebion 1,8 Fy mab, gwrando ar beth mae dy dad yn ei ddweud a phaid ag anghofio beth ddysgodd dy fam i ti.

**Ffenest liw**

Fore Sul Mehefin 12fed cafwyd orig dawel i gysegru ffenest liw newydd yn y capel. Mae'r ffenest yn cynrychioli awydd y gynulleidfa i gofio'n barchus am ffyddlondeb ac i ddiolch yn ddiffuant am haelioni dwy chwaer, Dilwen a Mair Harries. Roedd yn braf cael cwmni Gareth Morgan, dylunydd y ffenest, yn yr oedfa a hefyd ei briod; Gareth a ddyluniodd ffenest liw yng Nghapel Y Crwys, Caerdydd. Cafwyd nodyn gan Gareth yn amlinellu ei feddyliau wrth ddylunio'r ffenest. Mae'r isod yn ddetholiad o'i nodyn.

*Am fod y ffenest hon i goffáu dwy chwaer oedd yn nyrsio, y syniad a ddaeth i mi ar y cychwyn cyntaf oedd 'Gwellhad'. I'r perwyl hwn, ces fy ysbrydoli gan eiriau Jeremeia (8,22), 'Onid oes balm yn Gilead?. Dyma beth a awgrymodd strwythur y ffenest - gwaith Dilwen a Mair yn gwella cleifion, gan ddilyn esiampl Iesu. Ymchwiliais i nodweddion planhigion yn y Beibl - balm a dil. Felly mae cynllun y ffenest yn dangos, ar y chwith, wasanaeth y ddwy chwaer gyda'u hoff flodau, ac, ar y dde, blanhigion y Beibl. Mae'r blodau eraill ar y chwith yn arwyddo gwaith y ddwy mewn rhyfel - pabis coch, pabis porffor, olewydden. Ar y dde, tynnir sylw at waith Iesu yn gwella merch Jairus a phalmwydd ar y daith i Jerwsalem.*



*Rwy'n hoffi gorguddio delweddau, hynny yw, bod delweddau yn cyflawni mwy nag un swyddogaeth. Felly mae'r groes yn awgrymu'r Via Dolorosa. Hefyd mae'r groes yn bren cyntefig gyda'r grawnwin a'r ŷd yn cynrychioli Aberth. Uwchben y 'groes' mae 'haul' yn codi (Malachi 4,2). Mae'r groes yn deilio fel pren byw, yn atseinio gweledigaeth Ioan (Datguddiad 22)*

*Hoffaf gyfuno dwy ffordd o edrych – y llorweddol (elevation) a'r golwg oddi uchod (plan). Dyna a welir yn y ffordd y mae rhai o'r coed wedi eu cynrychioli gyda'u ffrwythau.*

---

Mae'n briodol nodi yma werthfawrogiad dwfn aelodau Bethel o wasanaeth ein brawd Edryd Lloyd a fu mewn cysylltiad agos gyda Gareth dros fisoedd lawer wrth ddwyn y gwaith uchod i ben.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn yn fawr ag Alun Roberts ar golli ei fam yn ddiweddar.

**Hafan**

Ddechrau'r mis cafodd rhai o aelodau hŷn yr eglwys gyfle i fynd i ganolfan Bryn-y-Groes, y Bala i fwynhau wythnos o wyliau yng nghwmni Cristnogion eraill o bob rhan o Gymru. Arweinydd yr wythnos oedd Geraint Morse a fu yn ein tywys drwy ail bennod Effesiaid, gan gymryd y thema 'Dylanwadau'.

Cafwyd trip i Blas Tan-y-Bwlch a chlywed Phil Thomas yn sôn fel y bu fel gwirfoddolwr yn mesur a chofnodi glawiad Cader Idris unwaith y mis am 20 mlynedd.

Roedd y gwmnïaeth a'r gymdeithas yn ystod yr wythnos yn hyfryd a chroeso a darpariaeth Gwydion a Catrin ym Mryn-y-Groes yn wych. Roedd y cyfan yn 'hafan' yng ngwir ystyr y gair.

**Sioe Bypedau**

Fel arfer ar nos Wener mae clybiau i'r plant iau a hŷn ond un nos Wener yn ddiweddar cafwyd sioe bypedau cysgod yn darlunio rhai o ddamhegion Iesu Grist. Roedd y cyfan yn wych a'r plant, a rhai oedolion, wedi mwynhau'n fawr. Diolch yn fawr i Lois Adams a'i thîm am eu holl waith a'u dyfeisgarwch yn cynllunio a pharatoi. Gobeithiwn wneud rhywbeth tebyg eto yn y dyfodol.

**Gwaith Ysgolion**

Roedd yn braf cael Adam Coleman o Menter Ysgolion Cymraeg yn ein hoedfa un bore Sul. Soniodd Adam am ei waith yn yr ysgolion Cymraeg yn arwain gwasanaethau a cheisio cyflwyno'r efengyl mewn ffordd syml ac effeithiol.

**Pregethwr Gwadd**

Sul ola'r mis cawsom y pleser o groesawu Lewis Roderick atom i bregethu. Bu Lewis yn gweithio yn yr eglwys am gyfnod rai blynyddoedd yn ôl ac mae nawr yn gweinidogaethu yn eglwys Christchurch, Casnewydd. Dymunwn bob bendith arno ef a'r teulu.

**Gwersyll**

Dymunwn yn dda i holl blant a phobl ifanc yr eglwys dros yr haf wrth i sawl un fynychu gwersyll y Mudiad Efengylaidd.

## EGLWYS DEWI SANT

**Y Sulgwyn.**

Ar ddechrau mis Mehefin, dathlwyd Gŵyl fawr Y Sulgwyn a phen blwydd yr Eglwys Gristnogol.

**Coffi a Chlonc**

Bore Sadwrn y 18fed o Fehefin, yn Neuadd Eglwys Dewi Sant ac wyneb yn wyneb am y tro cyntaf ers dwy flynedd, cynhaliwyd sesiwn Coffi a Chlonc rhwng 10:30 a 12:00.

Diben y boreau hyn yw rhoi cyfle i ddysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg mewn awyrgylch anffurfiol a hamddenol.

Cynhelir y bore Coffi a Chlonc nesaf ddydd Sadwrn 16eg o fis Gorffennaf am 10:30 y bore. Mae croeso cynnes i ddysgwyr a siaradwyr rhugl.

**Gŵyl eglwysi agored Esgobaeth Llandaf.**

Roedd yr ŵyl yn canolbwyntio ar ddeg o eglwysi nodweddiadol yr esgobaeth ac yn rhan o’r ŵyl, trefnodd Dyfrig ein Ficer, ddau ddigwyddiad. Y cyntaf oedd gwasanaeth Cymraeg o’r Hwyrol Weddi gyda Salmau Cân yn eglwys Llanmihangel brynhawn Sul y 19eg o Fehefin.

Yr ail oedd digwyddiad dwyieithog yn eglwys Y Santes Fair Trebiwt pan soniwyd am fywyd a chyfraniad un o’i chyn-ficeriaid, Y Parchedig Griffith Arthur Jones. Roedd yn uchel eglwyswr o fri ac yn frwd iawn tros sefydlu Eglwys Dewi Sant yn Howard Gardens ddiwedd y 19eg ganrif. Ar derfyn y noson cafwyd gwasanaeth Y Cwmplin, gwasanaeth defosiynol byr ar derfyn dydd.

**Gwasanaeth Ordeinio**

Dydd Sadwrn, y 25ain o Fehefin, ymhlith eraill a ordeiniwyd yn ddiacon neu’n offeiriad yn Eglwys Gadeiriol Llandaf, urddwyd Siôn Brynach yn offeiriad. Bydd yn parhau yn Gurad yn Eglwys Grist, Parc y Rhath

**Gwasanaethau**

Fe fydd gwasanaeth yn yr eglwys bob dydd Sul am 10:30 a.m. ac am 6:00 p.m. a gwasanaeth am 8:00 a.m. ar Sul cyntaf a thrydydd Sul y mis.

Gweinyddir y Cymun Bendigaid yn yr eglwys bob bore Mercher am 10:30 gyda phaned i ddilyn.

## SALEM, TREGANNA

**Clybiau**


Cafodd ein criw o bobl ifanc hwyl yn bowlio deg yn y Bae ar 10 Mehefin. Mae’r clwb brecwast i rieni a phlant o dan oed meithrin wedi bod yn cwrdd bob pythefnos, a’r clwb coffi wedi bod yn cwrdd yn rheolaidd.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn â Huw Charles a’r teulu, wedi i Huw golli ei dad. Cydymdeimlwn hefyd â Mari Phillips sydd wedi colli ei mam. Rydym yn meddwl amdanoch yn eich colled.

**Taith Noddedig Evan**

Hoffwn atgoffa unrhyw un sydd â diddordeb i ymuno â ni yn Salem ar 13 Gorffennaf ym maes parcio Salem, i fynd ar daith gerdded o 5km fel rhan o ymgyrch Hadau Gobaith, Cymorth Cristnogol. Mae’r apêl yn Kenya a’r problemau mae’n nhw’n eu hwynebu oherwydd newid hinsawdd. Dyma apêl genedlaethol Eglwys Bresbyteraidd Cymru, ac eisoes mae Evan wedi cerdded ar hyd a lled Cymru. Hwn fydd y daith gerdded olaf, felly dewch i gefnogi! Bydd barbeciw i ddilyn am 7.30pm.






## EGLWYS MINNY STREET

www.minny street.org
@MinnyStreet Gweinidog: Y Parch. Owain Llŷr Evans

**Oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul**

Edrychwn ymlaen yn fawr at arweiniad ein Gweinidog yn oedfaon 10, 17 a 31 Gorffennaf. Bydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod yn ystod oedfa 3 Gorffennaf; bydd oedfa 10 Gorffennaf yn oedfa gynnar (9:30) ac oedfa fore Sul, 17 Gorffennaf yn oedfa gymun. Byddwn yn croesawu cyfeillion i arwain yr addoliad yn oedfaon 3 a 24 Gorffennaf.

Yn ystod mis Awst, edrychwn ymlaen at gydaddoli ag eglwysi Cymraeg eraill y ddinas. Ym Minny Street y bydd oedfaon trydydd Sul mis Awst, sef yr 21ain.

**Cydymdeimlo**

Cofiwn yn annwyl a diolchgar am Gwladys Jones (Rhiwbeina). Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'i phriod, Glyn, eu merched, Non a Rhian, a'r teulu ehangach a chyfeillion niferus.

**Covid-19**

Mae'r eglwys yn parhau i argymell diheintio a bod yn ystyriol o aelodau eraill yn ei hoedfaon a'i chyfarfodydd a pharchu cyd-aelodau sy'n parhau i wisgo gorchudd wyneb. Bydd y cyfle i ymuno ag un oedfa bob Sul drwy gyfrwng *Zoom* yn parhau. Yn yr un modd, bydd cyfarfodydd sy'n cael eu cynnal yn y festri, hefyd ar gael o hyd drwy *Zoom.*

## EGLWYS Y CRWYS

Wedi seibiant o ddwy flynedd oherwydd cyfyngiadau'r pandemig, braf oedd gweld nifer dda wedi ymgynnull ar gyfer y Te Mefus a gynhaliwyd yng nghartref Arthur a Diana Evans yn yr Eglwys Newydd. Cafwyd prynhawn hynod o lwyddiannus a phawb wedi mwynhau cyd-gymdeithasu unwaith yn rhagor. Trefnwyd Cwis gan William Tiplady a enillwyd gan Rhys Evans ac Osian Tobias yn Adran y Plant a chan Hannah Thomas yn Adran yr Oedolion. Diolch i bwyllgor y Gymdeithas a fu ynglŷn â'r trefniadau ond yn bennaf I Arthur a Diana am agor eu cartref unwaith eto.

Ganol Awst byddwn yn llawenhau gyda'n hieuenctid wrth iddynt dderbyn canlyniadau eu harholiadau. Dymunwn yn dda i bob un ohonynt, y rhai fydd yn cychwyn ar eu cyrsiau yn y colegau a'r rhai fydd yn symud ymlaen i flynyddoedd 12 a 13 yn yr ysgolion. Rydym yn falch ohonoch i gyd.

Ar Sul cyntaf mis Awst cawn gwmni aelodau o Eglwysi Cymraeg Caerdydd yn ein hoedfaon o dan arweiniad y Parchg Dafydd Andrew Jones. Gweinyddir Sacrament Swper yr Arglwydd yn yr Oedfa Hwyrol. Am weddill mis Awst edrychwn ymlaen at gyd-addoli gyda'n cyfeillion yn yr Eglwysi Cymraeg, ar y 14eg yn Eglwys Tabernacl; yr 21ain yn Eglwys Minny St., ac ar yr 28ain yn Eglwys Ebeneser.

Ar y Sul cyntaf o Fedi fe wasanaethir gan y Gweinidog gydag Oedfa Gymun yn y bore; yna ar yr 11eg cawn gwmni'r Parchg Robert Owen Griffiths; Y Gweinidog yn y bore ar y 18fed a byddwn yn ymuno â'n cyfeillion yn Eglwys Minny St. yn oedfa'r hwyr. Ar y Sul olaf, Medi'r 25ain, byddwn yn croesawu'r Parchg Glyn Tudwal Jones i wasanaethu. Croeso cynnes i bawb.

Rydym yn dymuno gwyliau haf hapus i aelodau'r Crwys ac i holl ddarllenwyr y Dinesydd. Gobeithio y cawn weld ein gilydd yn Nhregaron.

## EBENESER

**Paradise Run**

Mae mudiad Enfys Gobaith sy'n gweithio gyda'r digartref ac Ymgeiswyr Lloches yng Nghaerdydd yn bwriadu ail-gychwyn y Paradise Run yn fuan. Trwy'r gweithgarwch hwn byddwn yn bwydo'r digartref. Bydd yn cychwyn dan do yn y ganolfan ar Broadway ac nid ar strydoedd canol y ddinas. Os am fod yn rhan o dîm Ebeneser, cysylltwch gydag Alun.

**Cyfarfodydd Blynyddol**

Eleni byddwn yn dathlu pen-blwydd Undeb yr Annibynwyr yn 150 oed yn y cyfarfodydd blynyddol o'r 7 - 9 o Orffennaf yng Nghaerfyrddin. Bydd y mwyafrif o'r cyfarfodydd yng Nghanolfan Halliwell a'r oedfa o Fawl yng nghapel Heol Awst lle y cynhaliwyd cyfarfod cyntaf yr Undeb ym 1872.

**Cwmwl Tystion**

Y mae recordiad o holl bregethau Ebeneser yn cael eu gosod ar ein cyfrif SoundCloud sef Ebeneser Caerdydd. Gellir eu lawr lwytho i'w gwrando unrhyw amser. Hefyd gosodir recordiad o ffrwd byw oedfa'r bore ar ein cyfrif Youtube.

**Agor y Llyfr**

Mudiad yw Agor y Llyfr sydd yn annog Cristnogion i greu timau yn lleol er mwyn mynd i ysgolion i gyflwyno hanesion Beiblaidd i blant. Mae hwn yn weithredol ym mhob gwlad yn y Deyrnas Gyfunol ac o ganlyniad mae timoedd ar hyd a lled Cymru. Erbyn hyn nid yw'r mwyafrif o blant Cymru yn cael cyfle i ddysgu am Gristnogaeth nac ac am Iesu Grist. Mae Agor y Llyfr yn gyfle i wneud yn iawn am hyn.

Yn ystod y cyfnod clo fe fu tîm Agor y Llyfr, Cyngor Eglwys Cymraeg Caerdydd yn cynhyrchu fideos o straeon Beiblaidd er mwyn eu rhannu gyda'r ysgolion Cymraeg lleol. Bellach y mae pethau wedi agor ac edrychwn ymlaen at ymweld ag ysgolion unwaith eto er mwyn cyflwyno straeon Beiblaidd yn fyw i'r disgyblion.

Os ydych gyda chysylltiad ac ysgol, beth am wahodd Tîm Agor y Llyfr draw i gymryd y gwasanaeth? Neu os hoffech fod yn rhan o'r tîm cysylltwch gyda Catrin Roberts neu Alun Tudur:
aluntudur@btinternet.com

---

**Cadwch mewn cysylltiad â'r *Dinesydd***

**ar Twitter drwy ddilyn ein cyfrif newydd @DinesyddCdydd**

**ac ar Facebook drwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

# Colofn Chwaraeon Hywel Owen

**Llwyddiant Rhian yn y byd tenis**



Prin yw'r sylw a roddir gan y cyfryngau i gystadlaethau tenis y tu hwnt i bythefnos Wimbledon. Roedd buddugoliaeth Emma Raducanu yn yr US Open yn eithriad. Braf yw cael cofnodi llwyddiant gan chwaraewr o Gaerdydd. Mae Rhian Griffiths wedi bod yn cystadlu yn y byd tenis ers bron i hanner canrif gan gynrychioli Cymru ar bob lefel.

Erbyn hyn mae hi'n cystadlu mewn cystadlaethau ITF (International Tennis Federation) ar gyfer oedrannau hŷn ac wedi cael llwyddiant mawr. Ym mis Chwefror eleni enillodd Bencampwriaeth Dyblau Prydain ar gyfer oedrannau hŷn a braf oedd cael gwneud hynny yn ei thref, neu erbyn hyn ddinas, enedigol Wrecsam.

Yn ystod mis Mai mi wnaeth gyrraedd rowndiau terfynol y senglau a'r dyblau yng nghystadleuaeth Clai Prydain yn Bournemouth gan guro'r prif ddetholyn ar y ffordd i rownd derfynol y senglau. Yn anffodus colli bu ei hanes yn y ddwy rownd derfynol. Mis yma bydd yn dychwelyd i Felixstowe ar gyfer Pencampwriaeth Glaswellt Chwaraewyr Hŷn Prydain er mwyn ceisio dal gafael ar ei theitlau sengl a dyblau wnaeth hi ennill yn 2021.

Ym mis Ebrill bu yn rhan o dîm Cymru yng nghystadleuaeth y 4 Gwlad yn Bolton. Mae'n edrych ymlaen hefyd i gystadlu unwaith eto yn Wimbledon ym mis Awst mewn pencampwriaeth ar gyfer oedrannau hŷn. Braf yw cofnodi hefyd, ers rhai blynyddoedd cynhaliwyd cystadleuaeth lwyddiannus ITF yng Nghlwb Tenis Rhiwbeina pob mis Medi.

"Rwyf wedi bod yn hynod ffodus o gael y cyfle i ail-afael mewn cystadlu ar lefel uchel ers i mi ymddeol fel athrawes ychydig flynyddoedd nôl" medd Rhian sydd yn aelod o Glwb Tenis Castell Caerdydd. "Bûm yn cystadlu cryn dipyn yn fy ieuenctid ac yn chwarae yn gystadleuol yng Nghymru yn y blynyddoedd a fu. Cryfder tenis fel camp yw eich bod yn medru ei chwarae trwy gydol eich oes. Mae'n ffordd grêt o gadw'n heini."

Mae ei phedwar o blant hefyd wedi cael llwyddiant ym myd tenis gan gynrychioli timau cyntaf Clwb y Castell, bod yn gapteiniaid ar dimau eu prifysgolion a chynrychioli De Cymru. "Rwyf yn gobeithio fy mod wedi trosglwyddo fy mrwdfrydedd ar gyfer y gamp iddynt". Erbyn hyn mae un o'i merched yn teithio'r byd i brif bencampwriaethau tenis yn gweithio ar asesu data ar ran cwmni Hawkeye.

"Fy mwriad yw cario 'mlaen i gystadlu mor hir a fedraf, yn aml dwi'n dod ar draws cyn rhif un Prydain Roger Taylor sydd erbyn hyn yn cystadlu er ei fod dros 75."

## Caban Newydd i Gylch Meithrin Llanilltud Fawr

Fel sefydliad sy'n angerddol am roi addysg Gymraeg i blant Cymru, mae Mudiad Meithrin yn hynod falch o weld fod Cylch Meithrin Llanilltud Fawr wedi cael cartref newydd.

Ddydd Iau, 9 Mehefin cafwyd agoriad swyddogol hyfryd i gaban newydd sy'n cartrefu Cylch Meithrin Llanilltud Fawr ym Mro Morgannwg. Mae'r Cylch Meithrin ar agor bob dydd o 8 y bore hyd 12.45, ac o 1.15 – 5.00 gan gynnig gofal cofleidiol gydag Ysgol Gymraeg Dewi Sant yn Llanilltud Fawr.

Meddai Dr Gwenllian Lansdown Davies, Prif Weithredwr Mudiad Meithrin:
*"Mae dyfodol y Gymraeg yn dibynnu ar rwydwaith genedlaethol o Gylchoedd Meithrin yn darparu Gofal Plant ac addysg gynnar sy'n apelgar i deuluoedd. Hyfryd felly yw gweld cartref newydd Cylch Meithrin Llanilltud Fawr sy'n destament i waith caled a phartneriaeth rhwng pwyllgor a staff y Cylch, Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Lleol. Diolch i'r Dirprwy Weinidog Julie Morgan AS am ddod i'r agoriad swyddogol gydag arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Lis Burnett".*



# Pobol y Rhigwm

Gwaetha'r modd, cystadleuaeth ddigon siomedig oedd hi'r mis hwn a hynny ar ôl gosod testun ro'n i wedi meddwl fyddai'n cymell mwy o gystadlu, wrth ystyried y cyffro sy ar gynnydd cyn cynnal ein Prifwyl ar Faes go iawn am y tro cynta' ers tair blynedd. At hynny, ro'dd y mesur yn bwrpasol benagored, yn y gobaith o ddenu penillion caeth pedair llinell (neu 'englynion' fel y maen nhw'n cael eu galw, fel arfer!) a phenillion rhydd fel ei gilydd, heb fawr o gyfyngiadau o ran mydryddiaeth. Dau bennill a gafwyd ac er nad ydw i'n rhywun sy'n hoffi hel beiau wrth reddf, at ddibenion y golofn hon mae'n rhaid i fi wisgo het beirniad, sef y rôl y cytunais iddi! Yn hynny o beth, byddai'n ffuantus ohonof i fod yn dra chanmoliaethus o'r ddau ymgais a ddaeth i law achos mae iddyn nhw eu gwendidau, ysywaeth! Wedi dweud hynny, mae yma rinweddau cadarnhaol hefyd:

**Eisteddfod**

Bardd yr Haf oedd thema'r Eisteddfod,
A'r Lôn Goed oedd taith ein diwrnod.
Ond anorffen y siwrnai, aflonydd y fintai,
Heb enaid cytûn yn eu meddwdod!

**Barista**

Mae'n ddichon fod *Barista* yn gwybod cymaint o ffan o R. Williams Parry yw'r beirniad achos mae'r pennill hwn yn frith o gyfeiriadu sy'n ymwneud â Bardd yr Haf a'i gerddi! Mae'r rheini'n gyfeiriadau cynnil a dyna yw cryfder pennaf y pennill. Mae'r adeiladwaith yn dda hefyd - digon anodd gwneud hynny'n effeithiol mewn pedair llinell - a'r ysgafnder ar y diwedd wedi fy nhiclo. Yr hyn sy'n baglu *Barista*, gwaetha'r modd, yw'r diffyg llwyr yng nghysondeb y fydryddiaeth. Mae naw sill yn y llinell gynta', wyth yn yr ail, un deg tri yn y drydedd a naw eto yn y llinell glo. Rwy'n sylweddoli fy mod i'n ailadrodd yr hyn ddywedais mewn mwy nag un golofn flaenorol ond, rigymwyr - *cyfrwch y sillafau*!! Un o hanfodion y grefft o lunio cerdd (oni bai ei bod hi'n gerdd gwbl benrhydd ac mae set arall o hanfodion ar gyfer y rheini) yw mydryddiaeth sy'n gyson ac felly'n darllen yn esmwyth. Fedra i ddim gorbwysleisio cymaint y mae diffyg mydryddiaeth yn tynnu oddi ar ddarn o farddoniaeth.

**Yr Ŵyl Fawr**

Ond nepell o Landdewi Brefi,
Daw'r Ŵyl Fawr, sy'n crwydro trefi,
Oedd e'n syniad gwreiddiol Llan neu Lys?
Nid Dewi creodd, ond yr Arglwydd Rhys!

**Cors Caron**

Disgrifiad mwy uniongyrchol o'r Eisteddfod (neu'r Ŵyl Fawr, chwedl yr is-deitl!) sydd gan *Gors Caron*. Rwy'n hoffi'r llinell glo, dyma asio ein Nawddsant fel Cymry gyda sylfaenydd - i bob golwg - yr Eisteddfod gyntaf un. Âi'r Arglwydd Rhys yw nawddsant yr Eisteddfod Genedlaethol, felly? Clyfar! Mae'r ail linell fymryn yn rhy rhyddieithol i'm chwaeth innau ond nage dyna'r brif feirniadaeth yn achos y pennill hwn. Nac ychwaith y fydryddiaeth herciog, unwaith eto (er nad yw mydryddiaeth *Cors Caron* yn crwydro cymaint â mydryddiaeth *Barista*). Diffyg mewn cystrawen yw prif wendid yr ymgais hwn. '*Nid* nepell' yw'r ffurf gywir yn hytrach nag 'ond nepell' ar ddechrau'r llinell gynta ac er y gellid dadlau bod 'oedd' - y ffurf lafar - yn ddigonol ar ddechrau'r drydedd linell ac nad oes angen y ffurf fanwl gywir - 'a oedd' - mae'n bendant angen dweud '*gan* lan neu lys' (gwylier rhag gorddefnyddio priflythrennau hefyd, gyda llaw). Yn y llinell glo, wedyn, mae cystrawen y Gymraeg yn mynnu mai 'nid Dewi *a'i* creodd' sydd ei angen. Rwy'n croesawu ymadroddion llafar neu dafodieithol mewn cerddi ac yn enwedig mewn rhigymau ond rhaid bod yn ofalus hefyd bod y mynegiant yn gystrawennol gywir.

Beth i'w neud, felly? Mae pennill *Cors Caron* wedi'i fynegi'n fwy uniongyrchol ac mae'n ddisgrifiad twt o'r Ŵyl Fawr, sy'n ein tywys yn ôl i'w gwreiddiau. Y trueni mawr yw bod y gystrawen wallus yn cael y trechaf ar symbyliad y pennill. Fel y nodais uchod, mae ymgais *Barista* yn bell o fod yn berffaith - herciog yw'r fydryddiaeth ar y gorau. Fodd bynnag, mae digon o glyfrwch cynnil ac ysgafnder wrth wraidd pennill *Barista* sy'n teilyngu'r wobr y tro hwn, ond *cyfrwch y sillafau 'na*...!

Gobeithio bod *Barista* a *Chors Caron* fel ei gilydd - ac unrhyw ddarpar rigymwr, i ddweud y gwir - yn derbyn bod beirniadaeth adeiladol yn un o gonglfeini cystadleuaeth farddol o'r teip hwn. Ry'n ni'n genedl sy'n cofleidio ein traddodiad barddol ac mae'r cyfryw golofnau wedi ymddangos yn ein papurau bro a chenedlaethol ers oes pys. Mae hynny'n rhywbeth y dyle ni ymfalchïo yn ei gylch ond dyletswydd y beirniad, wedyn, wrth gwrs, yw cynnig gair o gyngor ac yn ei hanfod, cynnal safon. Rwyf fi fy hun wedi profi cael beirniadaeth llai-na-ffafriol ar fwy nag un achlysur ond eto i gyd, fedra i ddim ond meddwl mai dyna sut y mae rhywun yn mireinio'i grefft, yn y pen draw! Dyma ddymuno haf dedwydd i ddarllenwyr y *Dinesydd*.

*Aron Pritchard*

**Enillydd tasg Mehefin yw**

**Peter Griffiths, Pentyrch**

## Cystadleuaeth mis Gorffennaf
## Limrig yn cynnwys y llinell: Ar ôl bod ar wyliau eleni

*Anfonwch eich cynigion erbyn 20 Awst, 2022 at:*
*eirianagwilym@gmail.com*
*Gwobr: Tocyn llyfr: £10*

# Academi Llais a Chelfyddydau Dramatig Cymru yn cydweithio ag Ysgolion Caerdydd

Mae Academi Llais a Chelfyddydau Dramatig Cymru o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant wedi bod yn cydweithio a chreu gweithdai ar gyfer disgyblion blwyddyn 9 o Ysgol Glantaf, Caerdydd tra'n paratoi ar gyfer eu sioe diwedd blwyddyn '*Crazy For You.'*

Bydd myfyrwyr BA Perfformio a BA Musical Theatre yn perfformio'r sioe *'Crazy For You'* sy'n cael ei gyfarwyddo gan y cyfarwyddwr amryddawn James Williams.

Bwriad y gweithdai yw cysylltu, ac ymestyn allan at ysgolion yn y gymuned, ac i gyd-ddysgu a rhannu sgiliau gyda'r disgyblion. Mae'r gweithdai hefyd yn gyfle i'r disgyblion gael blas o fyd y sioe gerdd, a gweld sut mae'r myfyrwyr yn mynd ati yn eu sesiynau ymarfer o ddydd i ddydd, yn ogystal ag ystyried pa fath o yrfaoedd mae'r cwrs yn ei gynnig.

Dywedodd y darlithydd Elen Bowman:
"Cefais groeso twymgalon gan ysgol Glantaf a chyfle am ychydig i rannu ymarferion actio gyda chriw o tua 40 o ddisgyblion drama chwilfrydig. Trwy gemau theatr gan wneuthurwyr byd eang, roedd modd i ni drafod pwysigrwydd corff rhydd, ffocws, cyd-weithio, sylw, mentro ac ymroi cant y cant - sef swydd ddyddiol yr actor!



Meddai'r cyfarwyddwr James Williams:
"Roedd ymatebion meddylgar y disgyblion i'r gwaith yn ddefnyddiol, ac roedd eu cael yn ein hymarfer yn ddefnyddiol i'r cast gan eu bod yn gallu arbrofi gyda thorri'r 'bedwaredd wal' ac ymarfer chwarae gyda chynulleidfa ar dair ochr. Roedd yn bleser gweld myfyrwyr a disgyblion yn taflu eu hunain i'r gwaith gyda'i gilydd.

Meddai Wil Morris, disgybl o flwyddyn 9 yn Ysgol Glantaf:
"Cawsom brofiadau dramatig gwych wythnos ddiwethaf fel dosbarth Drama, wrth gael y cyfle i ymuno yn ymarfer y myfyrwyr sy'n perfformio *'Crazy For You'* ymhen wythnos. Cyfle i ystwytho a datblygu sgiliau cynhesu ac anadlu - joio!

Mae myfyrwyr o'r cwrs BA Perfformio o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant hefyd wedi bod yn cynnal gweithdai hyfforddiant Boal yn ddiweddar gydag athrawon ysgolion cynradd Caerdydd fel techneg newydd i'w ddefnyddio yn y dosbarth.



Mae'r myfyrwyr wedi cynnal cyfres o weithdai gydag athrawon o ysgolion Glan Ceubal, Ysgol y Wern, Pencae, Hamadryad, Pwll Coch a Mynydd Bychan er mwyn eu haddysgu am dechneg chwarae rôl yr ymarferwr theatr, Augusto Boal. Bwriad yr hyfforddiant yw hwyluso dull sy'n helpu plant i ymdrin â heriau bach sydd yn gallu codi wrth chwarae, neu yn y dosbarth.

Y gobaith yw byddai modd i'r plant ac athrawon fedru camu i mewn i'r sefyllfa drwy actio'r broblem allan, ac yna gobeithio goresgyn y broblem drwy drafod sut fyddai modd ei ddatrys, a'r hyn sy'n eu poeni.

Dywedodd Mared Harries, athrawes o Ysgol y Wern, Caerdydd:
"Mae cael ymwelwyr i mewn i'r ysgol o hyd yn sbarduno diddordeb y disgyblion, ond yn sicr mae cael y cyfle i ddod i adnabod y myfyrwyr o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a threulio ychydig o amser yn eu cwmni yn chwarae gemau drama wedi golygu bod y disgyblion yn gweld drama fel peth hwyl.

"Maent yn edrych ymlaen yn arw i arbrofi â thechnegau Boal, ac i ddysgu mwy amdano, ac rydym ni fel athrawon yn awyddus i weld sut gall y dull drama hwn fod yn ffurf i'r dysgwyr fynegi eu gofidiau ac i ddatrys problemau bach o ddydd i ddydd sydd i'w gweld ar yr iard yn gyson."

Mae gweithdai o'r fath wedi llwyddo i feithrin hyder ymhlith y myfyrwyr yn ogystal â dysgu iddynt set newydd o sgiliau allweddol sydd yn eu paratoi ar gyfer y dyfodol.

"Roedd yr athrawon yn hynod barod i ymdrochi yn y profiad a deall sut fedr technegau theatr Fforwm Boal gael eu haddasu ar gyfer plant lefel cynradd. Chwarae teg i'r plant maen nhw'n barod iawn i drio'r ymarferion a chynnig digwyddiadau bach bob dydd sydd angen eu datrys a'u trafod fel grŵp. Yn sgil hyn mae'r myfyrwyr hefyd yn buddio o'r profiad sef sgiliau arwain, cyfathrebu'n glir a magu mwy o hyder fel unigolion. Agweddau holl bwysig yn hyfforddiant yr actor."

# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Pleser mawr oedd dechrau cyfarfod yn Eglwys Bethel, Rhiwbeina. Cafwyd dau gyfarfod diddorol yng nghwmni'r aelodau ffyddlon a nifer o gyfeillion newydd.


Ar Fehefin 1af am 11 o'r gloch paratowyd bore cymdeithasol a phwyllgor i drefnu'r dyfodol.

Ar fore Mercher, Mehefin 15fed, am 11 o'r gloch, croesawodd Mrs Mair Morgan, ein darpar lywydd 2022-23, Carys a Patrick Whelan, Sant Hilari, i drafod y testun “Llysiau Llesol”, a hynny yn arbennig ar gyfer aelodau hŷn.

Cyflwynwyd hanes diddorol gan Carys am y traddodiad dros ganrifoedd o gredu mewn gwerth llysiau o bob math o'r ardd a'r cloddiau. Hefyd, paratôdd a chyflwynodd Patrick rai hadau y gellir eu tyfu yn yr ardd ac ar sil y ffenestr yn y tŷ yn ddiffwdan. Diddorol oedd cael rhestr hir o enwau Cymraeg fel Cribau Sant Ffraid, Mantell y Forwyn, Llysiau'r Wennol a Phys Melyn. Pwysleisiwyd fod arbenigwyr dros yr oesau yn credu fod yna feddyginiaeth lysieuol at bob dolur. Edmygwyd eu gwybodaeth eang ar y pwnc.

Cyfarfodydd nesaf:- Mehefin 29ain - Y Parchedig Dyfrig Lloyd, Ficer Dewi Sant; Gorffennaf 13eg - Te Mefus blasus.

Cyfarfod cyntaf y Tymor Newydd:- Medi 14eg yn Eglwys Bethel, Rhiwbeina am 11 o'r gloch.




## Parchg Milton G. Jenkins Dathlu'r 90 oed

Bydd rhai ohonoch yn gwybod bod y Parchg Milton Jenkins, Parc y Rhath, wedi cyrraedd y garreg-filltir arbennig hon yn ôl ym mis Mai. Symudodd o Aberteifi i Gaerdydd yn 1995 a gwasanaethodd fel gweinidog Eglwys Tonyfelin Caerffili tan yn gymharol ddiweddar.

Yno yn y festri wedi'r oedfa ar fore Sul olaf mis Mai, cynhaliwyd digwyddiad cymdeithasol – cyfle am sgwrs fach, mwynhau paned a darn o'r gacen lliwiau'r enfys enfawr!

Yna ar nos Sul, 19 Mehefin, cynhaliwyd oedfa o fawl ar ddiwedd wythnos yr Ŵyl Flodau. Cafwyd nifer o eitemau amrywiol gyda Gwen Thomas ac Eirian Dafydd yn arwain a Helen Hollyman wrth yr organ.

Manteisiwyd ar y cyfle i ganu dau o emynau'r ddiweddar Rita Milton Jenkins. Yn anffodus bu farw rhyw bythefnos cyn cyrraedd ei 90 oed ym mis Tachwedd 2020.

Unwaith eto cafwyd danteithion blasus iawn yn y festri wedi'r oedfa awr a hanner. Hyfryd nodi bod Hywel ac Eira Jones wedi cadw cwmni i Milton ar y ddau achlysur.

Roedd Rita wedi cyfansoddi a chyfieithu nifer dda o emynau ar hyd y degawdau – cyfnodau Glyn Nedd, Maesteg, Aberteifi a Chaerdydd. Gobeithio bydd modd eu casglu ynghyd a phwy a ŵyr efallai daw cyfle rhyw ddydd i'w darllen a'u gwerthfawrogi mewn rhyw fath o ddetholiad.



# Siaradwyr Cymraeg Newydd



## Gwilym Dafydd

### Gair gan David Thomas, Dysgwr y Flwyddyn

Yn gyntaf, dylwn ddweud diolch i chi annwyl ddarllenwyr *Y Dinesydd* am fy nilyn i dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r amser wedi hedfan ers i fi ennill Dysgwr y Flwyddyn nôl ym mis Awst 2021.

Gofynnodd rhywun am y pethau sydd wedi sefyll mas yn ystod y flwyddyn, ond ble i ddechrau?

Roedd e'n eithaf annisgwyl cael fy adnabod yn nhre Caerfyrddin. Diolch i bawb sydd wedi bod mor garedig dros y flwyddyn. Gwneud ymddangosiad ar y soffa enwog *Heno* oedd yn gofiadwy iawn hefyd, ond yn bersonol y peth mwyaf trawiadol i fi oedd y cyfle i gwrdd â dysgwyr eraill, rhannu ein profiadau, ein storïau ac ein parch i'r iaith Gymraeg. Siaradwr Cymraeg ydw i erbyn hyn. Does dim llawer arall i ddweud.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae'r paratoadau ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Tregaron wedi dechrau o ddifrif.

Rydw i'n siŵr bod pobl ledled Cymru yn awyddus iawn i ddod at ei gilydd ar y Maes eleni i weld hen gyfeillion, gwneud rhai newydd a chymryd mantais o bopeth mae'r digwyddiad yn cynnig. Cyn bo hir cawn ni wybod enw newydd Dysgwr y Flwyddyn 2022. Fe welaf i chi yn Nhregaron. Pob hwyl i chi gyd!

*Diolch yn fawr David am anfon gair unwaith eto i'r golofn hon a dwi wedi gofyn tua phedwar o weithiau! Cyfleus iawn i ni gan eich bod yn dod o Riwbeina yn wreiddiol. Fel dwedoch chi, edrychwn ymlaen at glywed pwy gaiff y fraint a'r cyfle mawr cyn bo hir - efallai bydd ganddo ef neu hi gysylltiadau â Chaerdydd - amser a ddengys!*



### Coffi a Chlonc

Erbyn hyn mae hi'n ganol haf felly mae'n gwneud synnwyr i gynnal ambell awr yn yr awyr agored. Wedi'r cyfan clywson ni am sawl person yn dioddef o'r hen Covid-19 ym mis Mehefin – rhai yn siaradwyr Cymraeg newydd ac ambell i diwtor!

Felly ar fore Llun, 20 Mehefin, dychwelodd Yr Awr Hapus i'r parc ger Llyfrgell Yr Eglwys Newydd. Yno roedd Mike a Jan Creigiau, Joan Fach, Phil Radur, Eirian a fi. Cafodd Jan druan ddamwain fach gyda'i chadair dec - dyn ni'n edrych ymlaen at weld y gadair newydd ym mis Gorffennaf!

Prynhawn Iau, 23 Mehefin, nôl a ni o Neros Jams Hywel i'r Castell. Roedd chwech yno, Cathy, Alan, Mike Treganna, Deiniol, Eirian a fi. Roedd Sean hefyd mewn Clonc, yn Neros, ar ei ben ei hun!

Sylwais ar nifer o negeseuon e-bost gwerthfawrogol o gyfeiriad dysgwyr brwdfrydig pan gyhoeddodd Sheridan a Gwen o'r Brifysgol taw un sesiwn Zoom fydd o hyn ymlaen sef dydd Gwener rhwng 1 a 2 o'r gloch. Am gyfnod hir ers Ebrill 2020 roedd Clonc Zoom amser cinio dydd Llun a Mercher. Diolch Sheridan a Gwen am ddal ati â'r oriau Clonc gwerthfawr hyn ers cyfnod hir.



***Rhai o'r criw Clwb Gwylio Adar ger y gored yn Radur.***

## Diolchiadau

Hoffai pwyllgor *Y Dinesydd* ddiolch yn fawr iawn i Ferched y Wawr Bro Radur ac i'r Cymrodorion am eu rhoddion hael tuag at gynnal ein papur bro. Gwerthfawrogwn bob cyfraniad.

## Yr Hinsawdd yn yr Eisteddfod

Afyddwch yn mynd i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron eleni? Os felly, a oes llond rhestr gennych yn barod o bethau i'w gweld, eu gwylio a'u gwneud yno? Y Pafiliwn? Y Babell Lên? Y stondinau? Y siopau llyfrau? Y corau? Y bar? Y Lle Celf? A ydych yn arfer mynd i'r Pentre' Gwyddoniaeth a Thechnoleg? Os na, rhowch gynnig arni eleni!



Yno, ymysg yr holl bethau diddorol i oedolion a phlant, bydd stondin gan Wrthryfel Difodiant (Extinction Rebellion, neu XR) yn Lloeren y Pentre' (sef y babell enfawr). Wrth y stondin bydd gwybodaeth wyddonol am sut a pham mae'r hinsawdd yn newid, a beth allwn ei wneud amdano.

Bydd tair Sgwrs gan y grŵp yn ystod yr wythnos: Ddydd Iau am 14.45 - 15.30 yn Sfferen y Pentre' Gwyddoniaeth bydd sgwrs dan y teitl 'Yr argyfwng hinsawdd a beth allwn ni ei wneud amdano'. Bydd Dr Rhian Barrance (sy'n byw yng Nghaerdydd), Darlithydd Gwyddorau Cymdeithasol a Llefarydd dros Wrthryfel Difodiant (XR) Cymru yn ei thraddodi. Mae hi'n dweud, 'Mae nifer ohonom yn poeni am yr argyfwng hinsawdd a dirywiad byd natur. Gwelwn effeithiau'r argyfwng ledled y byd trwy fethiant cnydau, corwyntoedd, tanau gwyllt a thywydd poeth marwol, ac yma yng Nghymru mae stormydd a llifogydd wedi dinistrio tai, busnesau a bywydau nifer o bobl dros y blynyddoedd diwethaf. Er hyn, mae'r Panel Rhyngwladol ar Newid Hinsawdd yn rhybuddio nad yw ein llywodraethau'n cymryd y camau angenrheidiol sydd eu hangen arnom i fynd i'r afael â'r argyfwng. Felly beth allwn ni ei wneud fel dinasyddion? Yn y sgwrs yma byddwn yn sôn am effaith cynhesu byd-eang ar y byd ac ar Gymru yn benodol. Byddwn hefyd yn sôn am sut gallwn weithio gyda'n gilydd i fynnu bod ein llywodraethau yn gweithredu er mwyn amddiffyn ein cymunedau a'n cynefinoedd.

Ddydd Gwener am 9.30 - 10.30 ym mhabell Cymdeithasau 2, bydd Rhian yn dilyn trywydd gwahanol: 'Trwy ddulliau chwyldro'n unig? Dulliau ymgyrchu yng Nghymru'. Bydd hi'n sôn am hanes anufudd-dod sifil yng Nghymru gan ystyried sut mae'r ymgyrch dros yr iaith Gymraeg wedi dylanwadu ar actifiaeth dros achosion eraill. Bydd yn cyfweld ag ymgyrchwyr o fudiadau gwahanol, gan gynnwys Angharad Tomos, a garcharwyd am weithredu dros yr iaith Gymraeg yn y 70au a'r 80au.

Ddydd Gwener am 13.00 - 13.40 yn Sfferen y Pentre' Gwyddoniaeth bydd 'Panel Holi: Sut mae mynd i'r afael ag argyfwng yr hinsawdd? Y Gwir yn Erbyn Diwedd y Byd' gyda phanel o aelodau o Wrthryfel Difodiant (XR). Dyma'ch cyfle i ofyn cwestiynau. Bydd yr aelodau'n barod i ymateb i unrhyw gwestiwn e.e. Beth mae'r wyddoniaeth yn ei ddweud? Ydy tactegau Gwrthryfel Difodiant yn effeithiol? Pam nad yw'ch pledren yn ffrwydro pan fyddwch chi wedi cloi'ch hunan wrth rywbeth? Beth yw 'Cynulliad Dinasyddion' a pham bod eu hangen?

Os nad yw Sgyrsiau at eich dant, gallwch roi cynnig ar rywbeth ymarferol fel Bloc-brintio. Bob dydd yn ystod yr wythnos, gan gynnwys y ddau ddydd Sadwrn a dydd Sul, rhwng 10.45 - 12.45, galwch heibio i stondin Gwrthryfel Difodiant yn Lloeren y Pentre' Gwyddoniaeth. Cewch ddefnyddio blociau argraffu i greu delweddau trawiadol mudiad XR. Darperir yr holl ddeunyddiau gan gynnwys inciau ecogyfeillgar a chymorth - neu dewch â'ch dilledyn neu ffabrig eich hun i'w hargraffu. Byddwch yn barod i wrthryfela dros yr hinsawdd

---

## Anrhydedd am wasanaethau i ganu corawl yn Awstralia

Mae Marilyn Phillips wedi byw yn Awstralia am dros 25 mlynedd. Y flwyddyn yma cafodd y fraint o dderbyn OAM am ei gwasanaeth at ganu corawl yn Awstralia. (Mae'n debyg i OBE).

Cafodd Marilyn ei geni a'i magu yng Nglyn-nedd lle dangosodd ddawn arbennig yn yr eisteddfodau lleol. Ar ôl derbyn nifer o anrhydeddau o'r Academi Frenhinol, ac ymysg nifer o fentrau gwahanol, bu'n gyfeilydd i gôr meibion Llundain am 25 mlynedd. Yn 1994, daeth yn ôl o Awstralia i fod yn gyfeilydd swyddogol yn Eisteddfod Nedd a'r Cyffiniau.

Mae Marilyn wedi cadw ei Chymraeg a dros y ddwy flynedd diwethaf mae hi wedi bod yn aelod selog ar Zoom ar un o'r nifer o siopau siarad sydd yn bodoli yng Nghaerdydd.



Llongyfarchiadau i Marilyn am ei hanrhydedd a'i gwaith di-baid yn Awstralia yn hybu miwsig a chanu yn Saesneg ac ambell waith yn Gymraeg

# Gweithgareddau gwyliau i'r rhai bach a'r rhai mawr!

Gyda'r gwyliau yn prysur agosáu, mae criw Menter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg yn edrych ymlaen at 'haf o hwyl' yng nghwmni plant a phobl ifanc yr ardal.

Os ydych chi'n gweithio dros yr haf, beth am ddefnyddio ein cynllun 'Gofal' yn ysgolion Treganna a Melin Gruffydd, sy'n rhedeg o ddiwedd Gorffennaf am 5 wythnos? Neu gallwch fanteisio ar ein cynllun chwarae rhad ac am ddim, Bwrlwm! Cynhelir sesiynau ar draws y brifddinas yn ysgolion Pwll Coch, Coed y Gof, Mynydd Bychan a Nant Caerau yn ogystal â Chanolfan Hamdden y Dwyrain, Parc y Marl a Chanolfan Gôl.

Draw yn y Fro bydd sesiynau Bwrlwm! yn cael eu cynnal ym Mhenarth, Llanilltud Fawr a'r Barri am dair wythnos gynta'r gwyliau. Mae'r gweithgareddau'n agored i blant sydd newydd orffen y dosbarth derbyn hyd at y rhai sydd newydd adael Bl.6.

Yn ogystal â'n darpariaeth i aelodau ifanc y teulu, bydd llu o weithgareddau difyr i'r oedolion hefyd. Cofiwch am ein taith fws i'r Eisteddfod Genedlaethol ddydd Mawrth, 2 Awst. Mae'r seddi'n gwerthu'n gyflym felly ewch i'r wefan neu ffoniwch y swyddfa i sicrhau eich lle. Bydd ein taith i Ŵyl Fwyd y Fenni yn sicr o dynnu dŵr o'r dannedd, felly cadwch y dyddiad – dydd Sadwrn, 17 Medi.

Os ydych chi'n mwynhau'r awyr iach, dewch am dro o Barc Hailey, Ystum Taf i Radyr ar hyd Afon Taf a Chamlas Morgannwg (Iau, 14.07). Byddwn yn dychwelyd drwy Goed Radyr gan fwynhau rhai o drysorau cudd y brifddinas. Mae'r daith yn 5 milltir o hyd ac mae croeso i siaradwyr Cymraeg o bob lefel. Trefnir taith gerdded arall o Fforest Fawr, Tongwynlais, fore Sul, 7 Awst. Bydd y cerdded ychydig yn fwy heriol ond bydd y golygfeydd yn werth eu gweld!

Ydych chi'n hoff o fyd natur? Beth am ddod i Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru nos Fawrth, 16 Awst ar daith arbennig i chwilio am ystlumod? Mae'r daith dywys hon, trwy gyfrwng y Gymraeg, yn cael ei chynnig gyda phris arbennig - £6 i oedolion a £4 i blant - ond rhaid bod dros 8 oed i gymryd rhan).

Ymhlith y sesiynau poblogaidd fydd yn cymryd hoe dros yr haf mae Sgwrs y Mis; y bore coffi misol i ddysgwyr; Pilates a Sbaeneg. Dymunwn haf hapus a heulog i bawb; fe welwn ni chi gyd ym mis Medi!




Gwefan: mentercaerdydd.cymru / menterbromorgannwg.cymru
Facebook: @m.caerdydd / @MIBroMorgannwg
Instagram: https://www.instagram.com/mentercaerdydd/
E-bost / Ffôn: post@mentercaerdydd.cymru / 029 2068 9888

